Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/2021

Fersiwn	Cymeradwywyd
1	Drafft yr Uwch Dîm Rheoli ar 25 Mawrth 2021 i'w gymeradwyo
2	Grŵp Llywodraethu Integredig Felindre ar 15 Ebrill 2021
3	Pwyllgor Archwilio 20 Ebrill 2021 i'w adolygu
4	Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau ar 20 Mai i'w gymeradwyo'n derfynol
5	Yr Uwch Dîm Rheoli ar 27 Mai 2021 i'w gymeradwyo'n derfynol
6	Y Pwyllgor Archwilio ar 29 Mehefin 2021 i'w gymeradwyo'n derfynol

CYNNWYS

	Pennod	Tudalen
1.	**Cwmpas Cyfrifoldeb**	**3**
2.	**Y Fframwaith Llywodraethu**	**5**
	2.1 Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru	**5**
	2.2 Perfformiad a Hunanasesu Pwyllgor y Bartneriaeth	**9**
	2.3 Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)	**10**
	2.4 Adolygu Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio	**12**
	2.5 Is-grwpiau a Grwpiau Ymgynghorol	**13**
	2.6 Yr Uwch Dîm Rheoli	**14**
3.	**Y System Rheolaeth Fewnol**	**15**
	3.1 Archwilio Allanol	**15**
	3.2 Archwilio Mewnol	**16**
	3.3 Arbenigwyr Atal Twyll	**16**
	3.4 Llywodraethu Integredig	**17**
	3.5 Ansawdd	**17**
	3.6 Edrych i'r dyfodol	**18**
4.	**Y Gallu i ddelio â risg**	**18**
5.	**Y Fframwaith Risg a Rheoli**	**20**
	5.1 Y Gofrestr Risg Gorfforaethol	**21**
	5.2 Polisïau a Gweithdrefnau	**22**
	5.3 Llywodraethu Gwybodaeth	**23**
	5.4 Atal Twyll	**25**
	5.5 Archwilio Mewnol	**25**
	5.6 Y Cynllun Tymor Canolig Integredig	**25**
	5.7 Y Safonau Iechyd a Gofal	**26**
6.	**Datgeliadau Gorfodol**	**29**
	6.1 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol	**29**
	6.2 Y Gymraeg	**31**
	6.3 Delio â Chwynion a Phryderon	**32**
	6.4 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	**33**
	6.5 Diogelwch Data	**33**
	6.6 ISO14001 - Cynllun Cyflawni Cynaliadwyedd a Lleihau Carbon	**33**
	6.7 Cynllunio Parhad Busnes / Parodrwydd am Argyfyngau	**34**
	6.8 Cod Llywodraethiant Corfforaethol y DU	**35**
	6.9 Cynllun Pensiynau'r GIG	**35**
7.	**Adolygiad Cyffredinol y Rheolwr Gyfarwyddwr o Effeithiolrwydd**	**36**

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020/2021

1. CWMPAS CYFRIFOLDEB

Drwy gydol blwyddyn ariannol 2020/21, wynebodd PCGC a GIG Cymru bwysau digynsail a chynyddol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y rhai yr effeithir arnynt gan COVID-19, wrth hefyd gynnal eu gweithgareddau a'u swyddogaethau craidd. Ymatebodd staff PCGC yn wych i'r her, fel na ddaeth unrhyw wasanaethau'n dod i ben ac yn wir cafodd nifer o wasanaethau newydd, gan gynnwys rhai ymhell y tu allan i'n sylfaen gyllid a gweithrediadol draddodiadol, eu sefydlu.

Un enghraifft o hyn yw'r Uned Meddyginiaethau Dros Dro (TMU). Arolygwyd Uned Feddyginiaethau Dros Dro PCGC gan y rheoleiddiwr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ym mis Rhagfyr 2020. Ar ôl mân addasiadau er mwyn bodloni argymhellion y rheoleiddiwr, agorodd y gwasanaeth ar 25 Ionawr 2021. Ers y dyddiad hwnnw mae wedi rhoi Meddyginiaethau i'r holl Fyrddau Iechyd sydd ag Ysbytai Acíwt yng Nghymru, gan gwrdd â phwysau a chaniatáu i adnoddau eraill gael eu hadleoli'n lleol er mwyn cael y budd mwyaf. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu fel cyfanwerthwr, yn prynu swmp o feddyginiaethau a defnyddiau traul, gan eu paratoi i fod yn barod i'w defnyddio o dan amodau Aseptig, a'u gwerthu i'r Byrddau Iechyd i'w defnyddio, yn bennaf yn eu Hunedau Gofal Critigol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn parhau i gyfrannu tuag at raglen frechu COVID-19 drwy oruchwylio'r gwaith o bacio a dosbarthu pecynnau nwyddau traul i ganolfannau brechu.

Enghraifft arall fu ymateb i'r mater o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE). Cafodd dull PCGC ac eraill ei adolygu'n gynhwysfawr gan Archwilio Cymru, a chyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Ebrill 2021. Nododd y datganiad i'r wasg a oedd yn cyd-fynd ag ef:

"*Gan weithio ar y cyd, fe wnaeth Cydwasanaethau'r GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill oresgyn heriau cynnar i ddarparu'r Cyfarpar Diogelu Personol a oedd yn ofynnol ar gyfer cyrff iechyd a gofal heb redeg allan o stoc ar lefel genedlaethol.*

Caffaelodd a darparodd Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Cydwasanaethau) Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gyfer staff rheng flaen mewn amgylchiadau heriol iawn. Gwnaethant roi trefniadau da ar waith i reoli risgiau a helpodd i osgoi rhai o'r problemau a adroddwyd yn Lloegr".

Golygodd y pandemig bod PCGC wedi gorfod gweithio'n wahanol iawn yn fewnol a chyda'n staff, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid, a bu'n rhaid adolygu'r ffordd y mae'r fframwaith llywodraethu a gweithredol yn cael ei gweithredu. I gydnabod hyn, ysgrifennodd Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru at holl Brif Weithredwyr GIG Cymru ynglŷn â "COVID-19 Decision Making and Financial Guidance". Roedd y llythyr yn

cydnabod y byddai sefydliadau'n debygol o wneud penderfyniadau a allai fod yn anodd ar gyflymder a heb sylfaen dystiolaeth gadarn na chefnogaeth unigolion allweddol, a fyddai ar gael o dan amgylchiadau gweithredu arferol. Serch hynny, mae'n ofynnol o hyd i'r sefydliad ddangos bod y broses o wneud penderfyniadau wedi bod yn effeithlon ac y bydd yn gwrthsefyll y prawf craffu mewn perthynas â chydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a dangos Gwerth am Arian ar ôl i argyfwng COVID-19 leihau a'r sefydliad yn dychwelyd i amodau gweithredu mwy arferol.

Er mwyn dangos hyn, mae PCGC yn cofnodi sut mae effeithiau COVID-19 wedi effeithio ar unrhyw newidiadau i brosesau gwneud penderfyniadau arferol. Lle bo hynny'n berthnasol, esboniwyd y rhain, a chamau eraill a gymerwyd, yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

Fel y Swyddog Atebol, mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn gyfrifol am gynnal system rheolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr hefyd yn diogelu'r cyllid cyhoeddus a'r asedau adrannol y mae ef yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn ôl y cyfrifoldebau a roddwyd iddo. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr hefyd yn gyfrifol am sicrhau y caiff PCGC ei gweinyddu mewn modd darbodus ac y caiff adnoddau eu defnyddio mewn modd effeithlon ac effeithiol.

Ystyr llywodraethu yw'r trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau bod y canlyniadau arfaethedig i randdeiliaid wedi eu diffinio a'u cyflawni. Mae llywodraethu effeithiol yn hanfodol i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau PCGC yn llwyddiannus ac yn ddiogel. Caiff hyn ei gyflawni trwy gyfuniad o systemau a phrosesau "caled" sy'n cynnwys rheolau sefydlog, polisïau, protocolau a phrosesau, a nodweddion "meddal" arweinyddiaeth effeithiol a safonau ymddygiad uchel (egwyddorion Nolan).

Mae Rheolwr Gyfarwyddwr y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn atebol i Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (Pwyllgor y Bartneriaeth) mewn perthynas â'r swyddogaethau sydd wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr hefyd yn atebol i Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth) mewn perthynas â'r trefniadau lletya sy'n cefnogi gwaith PCGC.


Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am berfformiad cyffredinol swyddogaethau gweithredol yr Ymddiriedolaeth, ac ef hefyd yw Swyddog Atebol penodedig yr Ymddiriedolaeth. Fel y sefydliad lletyol, mae gan y Prif Weithredwr (a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth) ddiddordeb dilys yng ngweithgarwch y Bartneriaeth Cydwasanaethau, ac mae ganddo gyfrifoldebau statudol penodol fel yr endid cyfreithiol sy'n lletya PCGC.

Bydd y Rheolwr Gyfarwyddwr (fel y Swyddog Atebol ar gyferPCGC) a Phrif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth (fel y Swyddog Atebol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth) yn gyfrifol am gyflawni pob un o gyfrifoldebau eu rolau, fel y'u nodir yn eu Memoranda Swyddog Atebol. Mae'r ddau Swyddog Atebol yn cydweithredu â'i gilydd er mwyn sicrhau bod atebolrwydd llwyr i

Ysgrifenyddion Cabinet/Gweinidogion Llywodraeth Cymru am weithgarwch y Bartneriaeth Cydwasanaethau a'r Ymddiriedolaeth, a hynny gan ddyblygu cyn lleied o waith â phosibl.

Mae Strwythur Llywodraethu PCGC i'w weld yn Ffigur 1 isod:

Ffigur 1 - Strwythur Llywodraethu PCGC



Mae fframwaith cyfreithiol a sicrwydd cyffredinol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn sylfaen i hwn

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwyodd Pwyllgor y Bartneriaeth sefydlu Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Cymeradwywyd cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn gan Bwyllgor y Bartneriaeth yn ei gyfarfod ym mis Medi 2020, a bydd y Pwyllgor newydd yn dechrau yn 2020/21.

2. Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae gan PCGC ddau brif bwyllgor sydd â rolau pwysig o ran y Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd. Caiff y ddau Bwyllgor eu cadeirio gan Aelodau Annibynnol ac maent yn cynnal trafodaethau ynghylch craffu a datblygu, ynghyd ag asesu risgiau cyfredol a monitro perfformiad y gwasanaethau amrywiol y mae PCGC yn eu darparu i GIG Cymru.

2.1 Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau

Cafodd Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (Pwyllgor y Bartneriaeth) ei sefydlu yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012, ac mae swyddogaethau rheoli a darparu cydwasanaethau (gwasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol) i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru wedi eu cynnwys yng Ngorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) (Diwygiad) 2012.

Mae cyfansoddiad Pwyllgor y Bartneriaeth yn cynnwys Cadeirydd Annibynnol, Rheolwr Gyfarwyddwr y Bartneriaeth Cydwasanaethau, a naill ai Prif Weithredwr pob sefydliad partner yn GIG Cymru neu gynrychiolydd

gweithredol enwebedig sy'n gweithredu ar ran y Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth berthnasol.

Ar 23 Mawrth 2020, gohiriodd Llywodraeth Cymru bob penodiad cyhoeddus ar unwaith. Roedd deiliadaeth y Cadeirydd presennol i fod i ddod i ben ar 30 Tachwedd 2020. Fel arfer, nid oes mecanwaith i ymestyn deiliadaeth y Cadeirydd y tu hwnt i wyth mlynedd; fodd bynnag, er mwyn osgoi pwysau gweithredol a llywodraethu, aeth Llywodraeth Cymru ymlaen â diwygiadau dros dro i'r ddeddfwriaeth er mwyn caniatáu deiliadaeth estynedig. Felly, estynnwyd cyfnod y Cadeirydd presennol o 12 mis hyd 30 Tachwedd 2021, a chymeradwywyd hyn ym Mhwyllgor y Bartneriaeth ym mis Mai 2020.

Ar lefel leol, mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru gytuno ar Reolau Sefydlog at ddibenion rheoleiddio gweithredoedd a busnes. Nod y rhain yw troi gofynion statudol Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn weithrediadau o ddydd i ddydd ac, ynghyd â mabwysiadu cynllun ar gyfer materion a neilltuir i'r Bwrdd, cynllun am yr hyn sydd wedi ei ddirprwyo i swyddogion ac eraill, a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maent yn ffurfio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ymddygiad busnes PCGC ac yn diffinio 'sut mae'n gweithio'. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â pholisïau perthnasol yr Ymddiriedolaeth a phrotocolau corfforaethol PCGC sydd wedi eu cymeradwyo gan yr Uwch Dîm Rheoli, yn ffurfio Fframwaith Llywodraethu PCGC.

Mae Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi cydweithio er mwyn llunio trefniadau gweithredol i ddarparu cydwasanaethau ac maent wedi cytuno ar Femorandwm Cydweithio. Nod y Memorandwm hwn yw sicrhau y caiff y trefniadau eu gweithredu mewn modd effeithlon trwy wneud penderfyniadau ar y cyd, yn unol â'r polisi a'r strategaeth a nodwyd uchod, o dan gyfarwyddyd Pwyllgor y Bartneriaeth.

Er bod Pwyllgor y Bartneriaeth yn gweithredu ar ran holl sefydliadau GIG Cymru wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae gweithredu swyddogaethau PCGC yn gyfrifoldeb i bob un o'r cyrff yn GIG Cymru.

Mae crynodeb o drefniadau llywodraethu PCGC i'w weld isod.

Ffigur 2: Crynodeb o'r trefniadau llywodraethu



Mae Pwyllgor y Bartneriaeth wedi rhoi Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd cadarn ar waith ar gyfer PCGC, sy'n cynnwys:

- Rheolau Sefydlog;
- Cytundeb Lletya;
- Cytundeb Cydweithio rhwng Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC, a
- Chytundeb Atebolrwydd rhwng Pwyllgor y Bartneriaeth a Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC.

Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'r Memorandwm Cydweithio, yn sail i Femorandwm Cydweithio Pwyllgor y Bartneriaeth. Nod hyn, ar y cyd â Fframwaith Gwerthoedd a Safonau Ymddygiad yr Ymddiriedolaeth, yw sicrhau ein bod yn bodloni'r safonau ar gyfer llywodraethu da sydd wedi eu gosod ar GIG Cymru.

Rhestrir isod yn Ffigur 3 Aelodaeth y Pwyllgor hyd at ddiwedd y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Dyluniwyd aelodaeth yn wreiddiol i fod yn Brif Weithredwyr pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth ond caniateir i ddirprwyon enwebedig fod yn bresennol a phleidleisio, ar yr amod eu bod yn Gyfarwyddwr Gweithredol ar eu sefydliad eu hunain.

Ffigur 3: Tabl Aelodau o Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ystod 2020/2021.

Enw	**Swydd**	**Sefydliad**	**Blwyddyn Lawn/Rannol**
Margaret Foster (Y Cadeirydd)	*Aelod Annibynnol*	*Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru*	*Blwyddyn Lawn*
Huw Thomas (Yr Is-gadeirydd)	*Cyfarwyddwr Cyllid*	*BIP Hywel Dda*	*Blwyddyn Lawn*
Neil Frow	*Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC*	*Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru*	*Blwyddyn Lawn*
Kathryn Jones*	*Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol*	*BIP Bae Abertawe*	*Rhan o Flwyddyn*
Geraint Evans	*Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol*	*BIP Aneurin Bevan*	*Blwyddyn Lawn*
Sue Hill	*Cyfarwyddwr Cyllid*	*BIP Betsi Cadwaladr*	*Blwyddyn Lawn*
Catherine Phillips**	*Cyfarwyddwr Cyllid*	*Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro*	*Rhan o Flwyddyn*
Hywel Daniel	*Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol*	*BIP Cwm Taf Morgannwg*	*Blwyddyn Lawn*
Pete Hopgood	*Cyfarwyddwr Cyllid*	*Bwrdd Iechyd Addysgu Powys*	*Rhan o Flwyddyn*
Helen Bushell ***	*Cyfarwyddwr Pobl*	*Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru*	*Rhan o Flwyddyn*
Steve Ham	*Prif Weithredwr*	*Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre*	*Blwyddyn Lawn*
Chris Turley	*Cyfarwyddwr Cyllid*	*Welsh Ambulance Services NHS Trust*	*Blwyddyn Lawn*
Aelodau nad ydynt yn pleidleisio			
Eifion Williams	*Cyfarwyddwr Cyllid*	*AaGIC*	*Blwyddyn Lawn*

**Wedi cymryd lle Hazel Robinson, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol Medi 2020*
***Wedi cymryd lle Chris Lewis, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro Mawrth 2021 a oedd wedi cymryd lle Bob Chadwick, Cyfarwyddwr Cyllid Medi 2020*
***** Cymryd lle *Phil Bushby, Cyfarwyddwr Pobl. Nid yw Phil Bushby na Helen Bushell yn Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru felly nid ydynt yn gallu pleidleisio ac nid ydynt yn cyfrif tuag at gyflawni cworwm.*

Mae cyfansoddiad y Pwyllgor hefyd yn mynnu bod y canlynol yn bresennol: Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid, PCGC, Cyfarwyddwr y Gweithlu a

Datblygu Sefydliadol, ac Ysgrifennydd Bwrdd PCGC fel cymorth llywodraethu. Gwahoddir Undebau Llafur hefyd i'r cyfarfodydd.

Ffigur 4 – Presenoldeb yng Nghyfarfodydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ystod 2020/2021

Sefydliad	**21/05/ 2020**	**23/07/ 2020**	**17/09/ 2020**	**19/11/ 2020**	**21/01/ 2021**	**18/03/ 2021**
BIP Aneurin Bevan	✓	✓	x	x	✓	✓
BIP Betsi Cadwaladr	✓	✓**	✓*	✓	✓**	x
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	✓	x	✓	✓	✓*	✓
BIP Cwm Taf	✓	x	✓	x	✓**	x
AaGIC	x	x	✓**	✓**	✓**	✓**
Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru	✓	x	✓	x	x	✓
BIP Bae Abertawe	✓	✓	✓**	✓	✓*	✓**
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	✓	x	✓	✓*	x	✓**
Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	✓	✓	✓	x	✓	✓
Llywodraeth Cymru	✓	✓	✓	✓	x	✓
Undeb Llafur	x	✓	x	✓	✓	✓
Cadeirydd	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Swyddog Atebol	✓	✓	✓	✓	✓	✓

✓ Yn dynodi y bu'r aelod enwebedig yn bresennol

✓* *Yn dynodi nad oedd yr aelod enwebedig yn bresennol a bod Cyfarwyddwr Gweithredol arall yn bresennol ar ei ran*

✓** *Yn dynodi nad oedd yr aelod enwebedig yn bresennol ac er bod dirprwy yn bresennol, nid oedd yn Aelod Gweithredol o'i Fwrdd.*

X Yn dynodi corff iechyd heb ei gynrychioli

Ni chanslwyd unrhyw gyfarfodydd o Bwyllgor y Bartneriaeth yn ystod 2020/21 oherwydd y pandemig ond cynhaliwyd pob cyfarfod yn rhithiol. Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, mae'n ofynnol i'r sefydliad gwrdd yn gyhoeddus. O ganlyniad i'r risg iechyd cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r pandemig, bu cyfyngiadau ar gynulliadau cyhoeddus ac felly ni fu'n bosibl caniatáu i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd ein bwrdd a'n pwyllgorau yn ystod y flwyddyn. Ni chawsom unrhyw geisiadau gan y cyhoedd i fynychu Pwyllgor y Bartneriaeth ond, er mwyn sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mewn modd mor agored a thryloyw â phosibl yn ystod y cyfnod hwn, cymerwyd y camau canlynol:

- Cyhoeddir dyddiadau holl gyfarfodydd y Pwyllgor ar wefan PCGC cyn dechrau'r flwyddyn ariannol;
- Cyhoeddir yr agenda yn Gymraeg a Saesneg o leiaf saith diwrnod cyn cyfarfod y Pwyllgor;
- Cyhoeddir holl bapurau'r Pwyllgor yn Saesneg ar y wefan, a darperir y cofnodion yn Gymraeg hefyd, yn fuan ar ôl i'r cyfarfod gael ei gynnal.

Nodir diben Pwyllgor y Bartneriaeth isod:

- Pennu'r polisi a'r strategaeth ar gyfer PCGC;
- Monitro'r ddarpariaeth cydwasanaethau trwy Reolwr Gyfarwyddwr PCGC.
- Ceisio gwella'r modd y caiff cydwasanaethau eu darparu fel eu bod yn effeithiol, effeithlon ac yn arbed arian i GIG Cymru a Llywodraeth Cymru;
- Sicrhau y caiff PCGC ei harwain, ei rheoli a'i chyfarwyddo'n effeithiol ac yn effeithiol, a
- Sicrhau bod ffocws cryf ar arbedion y gellir eu hailfuddsoddi mewn gofal cleifion.

Mae Pwyllgor y Bartneriaeth yn monitro perfformiad bob mis yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Os na fydd dangosydd wedi cyrraedd y targed, nodir y rhesymau dros hynny a chânt eu cynnwys yn yr adroddiad ynghyd â chamau i wella perfformiad. Bydd y Cyfarwyddwr perthnasol wedyn yn eu cyflwyno i Bwyllgor y Bartneriaeth. Mae sesiynau 'at wraidd y mater' yn eitemau sefydlog ar yr agenda a nod y rhain yw dysgu mwy am y risgiau a'r problemau mewn cyfarwyddiaethau yn PCGC.

Mae Pwyllgor y Bartneriaeth yn sicrhau bod PCGC wedi dilyn egwyddorion llywodraethu da sy'n berthnasol i sefydliadau yn y GIG mewn modd cyson,

gan gynnwys egwyddorion mewn perthynas â goruchwylio a datblygu systemau / prosesau ar gyfer rheolaeth ariannol, rheolaeth sefydliadol, llywodraethiant a rheolaeth risg. Mae Pwyllgor y Bartneriaeth yn asesu risgiau strategol a chorfforaethol trwy'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

2.2. Perfformiad Pwyllgor y Bartneriaeth

Yn ystod 2020/2021, cymeradwyodd Pwyllgor y Bartneriaeth flaengynllun busnes blynyddol, gan gynnwys:

- Asesu ac adolygu rheolaidd o:
  - Gwybodaeth am Gyllid, y Gweithlu a Pherfformiad
  - Y Gofrestr Risg Gorfforaethol;
  - Cronfa Risg Cymru
  - Diweddariadau Swyddfa Rheoli Rhaglenni
- Adolygiad blynyddol a/neu gymeradwyo:
  - Cynllun Tymor Canolig Integredig;
  - Datganiad Llywodraethu Blynyddol;
  - Llythyr Rheoli Archwilio Cymru;
  - Adolygiad Blynyddol;
  - Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog
  - Safonau Iechyd a Gofal; a
  - Chytundebau Lefel Gwasanaeth
- Mynd at wraidd:
  - Ymateb i COVID-19;
  - Cynllun Gaeaf Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)
  - BREXIT;
  - Craffu ar Hawliadau Cronfa Risg Cymru;
  - Gwasanaeth Archwilio Meddygol;
  - Yr Iaith Gymraeg; a'r
  - Gwasanaeth Negesydd Iechyd;

2.3 Pwyllgor Archwilio Felindre ar gyfer PCGC

Prif nod Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer PCGC (y Pwyllgor Archwilio) yw adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd system llywodraethu a rheoli mewnol cyffredinol PCGC ac adrodd arno. Mae hyn yn cynnwys rheoli risg, rheolaethau gweithredu a chydymffurfio ynghyd â'r sicrwydd cysylltiedig sy'n sail i'r gwaith o gyflawni amcanion PCGC. Mae'r rôl hon wedi'i nodi'n glir yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio, a gafodd ei ddiwygio ym mis Hydref 2020 i sicrhau bod y swyddogaethau allweddol hyn wedi'u hymgorffori yn y rheolau sefydlog a'r trefniadau llywodraethu.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn sicrhau bod y gwaith archwilio mewnol ac allanol lleol a gwaith y Gwasanaeth Atal Twyll yn mynd rhagddynt yn effeithiol. Yn ogystal â hyn, mae'n sicrhau bod perthynas broffesiynol rhwng yr archwilwyr mewnol ac allanol fel y caiff yr adnodd sicrwydd ei ddefnyddio'n effeithiol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cefnogi Pwyllgor y Bartneriaeth wrth iddo wneud penderfyniadau a chyflawni'i ddyletswyddau i sicrhau bod PCGC yn gwireddu ei hamcanion, yn unol â'r safonau llywodraethu da sydd wedi eu gosod i GIG Cymru.

Roedd tri aelod annibynnol o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ymhlith y rhai a fynychodd y Pwyllgor yn ystod 2020/2021, a gafodd eu cefnogi gan gynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol ac Allanol ynghyd ag Uwch Swyddogion o PCGC ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Ffigur 5 – Aelodaeth o Bwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer PCGC yn ystod 2020/2021

Yn bresennol	Ebrill 2020	Mehefin 2020	Hydref 2020	Ionawr 2021	Cyfanswm
Aelodau'r Pwyllgor					
Martin Veale, Cadeirydd ac Aelod Annibynnol	✓	✓	✓	✓	**4/4**
Gareth Jones, Aelod Annibynnol	✓	✓	✓	✓	**4/4**
Janet Pickles, Aelod Annibynnol	✓	✓	✓	x	**3/4**
Archwilio Cymru					
Cynrychiolydd y Tîm Archwilio	✓	✓	✓	✓	**4/4**
Gwasanaeth Archwilio PCGC					
Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd	✓	✓	✓	✓	**4/4**
Pennaeth Archwilio Mewnol	✓	✓	✓	✓	**4/4**
Gwasanaeth Atal Twyll					
Arbenigwr Atal Twyll Lleol	x	✓	✓	✓	**¾**
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru					
Margaret Foster, Cadeirydd PCGC	✓	✓	✓	✓	**4/4**
Neil Frow, Rheolwr Gyfarwyddwr	✓	✓	✓	✓	**4/4**
Andy Butler, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	✓	✓	✓	✓	**4/4**
Peter Stephenson, Pennaeth Cyllid a Datblygu Busnes	✓	✓	✓	✓	**4/4**
Roxann Davies, Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol	✓	✓	✓		**3/3**
Carly Wilce Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro				✓	**1/1**
Ysgrifennydd PCGC	✓	✓	✓	✓	**4/4**
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre					

Yn bresennol	Ebrill 2020	Mehefin 2020	Hydref 2020	Ionawr 2021	Cyfanswm
Mark Osland, Cyfarwyddwr Cyllid	✓	✓	✓	✓	**4/4**
Lauren Fear Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol	✓	✓	✓	✓	**4/4**

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio yn ffurfiol bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Mynychodd y rhan fwyaf o aelodau yn rheolaidd ac roedd yr holl gyfarfodydd yn llawn. Adroddir Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor Archwilio i Bwyllgor y Bartneriaeth, ar ôl pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio.

2.4 Adolygu Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cwblhau arolwg o effeithiolrwydd y pwyllgor bob blwyddyn, sy'n gwerthuso perfformiad ac effeithiolrwydd y canlynol:

- Aelodau a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio;
- Ansawdd yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ac
- Effeithiolrwydd ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor.

Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau hunanasesu sydd â'r nod o gynorthwyo'r Pwyllgor i asesu'i effeithiolrwydd. Bwriad hyn yw nodi'r meysydd hynny y gellir gwella arnynt wrth symud ymlaen. Mewn arolwg a gynhaliwyd yn ystod mis Gorffennaf 2020, roedd cyfradd ymateb o 86% (derbyniwyd 13 ymateb) a nodwyd y canlynol:

- Cafwyd ymatebion cadarnhaol iawn gan gyfranogwyr mewn perthynas â Chadeirydd y Pwyllgor;
- Mae'r awyrgylch mewn cyfarfodydd yn ffafriol ar gyfer dadl agored a chynhyrchiol;
- Mae ymddygiad pob aelod a mynychwr yn gwrtais ac yn broffesiynol;
- Mae'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi canfod bod cael cyfarfodydd rhithiol yn brofiad cadarnhaol;
- Mae'r Aelodau'n cytuno bod y Pwyllgor yn cyfarfod yn ddigon aml i ddelio â materion a gynlluniwyd a chaniateir digon o amser ar gyfer cwestiynau a thrafodaethau;
- Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno bod y Pwyllgor yn cael digon o awdurdod ac adnoddau er mwyn cyflawni ei rôl yn effeithiol; a
- Nododd y mwyafrif llethol o'r ymatebion fod yr adroddiadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn amserol a bod ganddynt y fformat a'r cynnwys cywir, sy'n galluogi'r Pwyllgor i wella ei gyfrifoldebau rheoli mewnol a rheoli risg.

2.5 Is-grwpiau a Grwpiau Ymgynghorol

Cefnogir Pwyllgor y Bartneriaeth gan dri grŵp ymgynghorol:

- **Pwyllgor Cronfa Risg Cymru**
    - Mae'r Pwyllgor hwn yn ad-dalu sefydliadau iechyd sydd wedi colli mwy na £25,000 yn sgil hawliadau esgeulustod;
    - Goruchwylio'r Cynllun Indemniad Meddygon Teulu;
    - Caiff ei ariannu o gyllideb gofal iechyd GIG Cymru;
    - Mae'n goruchwylio gwaith a gwariant Cronfa Risg Cymru ac
    - Mae'n helpu i hyrwyddo'r arfer clinigol gorau a'r gwersi a ddysgwyd yn sgil digwyddiadau clinigol.

- **Bwrdd Caffael yn Seiliedig ar Dystiolaeth (ni wnaeth y pwyllgor hwn gyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn gan fod y ffocws ar PPE)**
    - Grŵp ymgynghorol i hyrwyddo rhagor o gydweithio ledled GIG Cymru;
    - Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o wahanol ddisgyblaethau ledled GIG Cymru a chyrff ymchwil perthnasol;
    - Mae'n helpu i lywio a datblygu prosesau caffael sy'n seiliedig ar werth a thystiolaeth er mwyn caffael defnyddiau traul meddygol a dyfeisiau meddygol ar gyfer GIG Cymru

- **Y Fforwm Partneriaeth Lleol**
    - Mae'r fforwm yn strwythur ffurfiol sy'n hwyluso ymgynghori ac ymgysylltu rhwng PCGC a'r Undebau Llafur perthnasol. Mae'n fforwm agored lle gall partïon gynnal trafodaethau a chytuno ar flaenoriaethau lleol mewn perthynas â materion gweithlu a gwasanaethau iechyd.

2.6 Uwch Dîm Rheoli

Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn arwain yr Uwch Dîm Rheoli, ac mae'n adrodd i Gadeirydd Pwyllgor y Bartneriaeth ynghylch perfformiad cyffredinol PCGC. Y Rheolwr Gyfarwyddwr yw'r Swyddog Atebol dynodedig ar gyfer y Bartneriaeth Cydwasanaethau ac mae'n atebol, trwy arwain yr Uwch Dîm Rheoli, am y canlynol:

- Perfformiad a chyflawniad PCGC trwy baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig a gaiff ei ddiweddaru bob blwyddyn yn seiliedig ar y polisïau a'r strategaethau a osodir gan y Pwyllgor, ac am baratoi Cynlluniau Gwella Gwasanaethau;
- Arwain yr Uwch Dîm Rheoli i gyflenwi'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r Cynlluniau Gwella Gwasanaethau;
- Sefydlu Cynllun Dirprwyo priodol ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli; a
- Sicrhau bod rheolaethau a gweithdrefnau mewnol digonol ar waith, fel bod swyddogaethau a ddirprwywyd yn cael eu cyflawni'n briodol ac yn ddoeth.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am bennu polisïau PCGC, gosod y cyfeiriad strategol, a'i nod yw sicrhau bod rheolaeth fewnol effeithiol ar waith a sicrhau safonau uchel o lywodraethu ac ymddygiad. Yn ogystal â hyn, mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am sicrhau bod PCGC yn ymateb i anghenion y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cynnwys:

Ffigur 7 – Aelodaeth o'r Uwch Dîm Rheoli yn PCGC yn ystod 2020/2021

Enw	**Swydd**
Neil Frow	Rheolwr Gyfarwyddwr
Andy Butler	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Gareth Hardacre	Cyfarwyddwr y Gweithlu, Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth
Jonathan Irvine	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Caffael
*Paul Thomas***	*Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyflogaeth*
Simon Cookson	Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd
Mark Harris*	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg
Andrew Evans*	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
Neil Davies	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Yr Athro Malcolm Lewis OBE	Cyfarwyddwr Meddygol
Alison Ramsey***	Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg
Alwyn Hockin	Cynrychiolydd Undeb Llafur

- *Dechreuodd Mark Harris, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg, ac Andrew Evans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, yn eu swyddi ar 1 Ebrill 2020.*
- *Ymddeolodd Paul Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyflogaeth, yn ffurfiol ddiwedd mis Hydref 2020. Ymgymerodd Gareth Hardacre, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol â'r cyfrifoldeb ychwanegol am Wasanaethau Cyflogaeth yr adeg yma.*
- *Penodwyd Alison Ramsey yn ffurfiol fel Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg cyntaf PCGC fis Tachwedd 2020.*

Ers dechrau mis Mawrth 2020, cefnogwyd yr Uwch Dîm Rheoli gan Grŵp Cynllunio ac Ymateb i gwrdd â'r heriau sy'n codi o'r achosion o COVID-19. Yn ogystal ag aelodau craidd yr Uwch Dîm Rheoli, mae'r Grŵp Cynllunio ac Ymateb yn cynnwys cynrychiolaeth o Undebau Llafur, Cyfathrebu, y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol, a nifer o Ddirprwy Gyfarwyddwyr er mwyn darparu persbectif gweithredol. Mae'r holl benderfyniadau a wneir gan y Grŵp yn cael eu cofnodi ar Gofnod o Faterion a Phenderfyniadau, ac mae'r Grŵp yn cyfarfod yn gyson ar TEAMS. Dilëwyd y Grŵp am gyfnod dros dro ym mis Mehefin 2020, wrth i effaith gychwynnol COVID-19 leihau, ond daeth yn weithredol eto ym mis Tachwedd wrth i effeithiau'r ail don o'r clefyd ddod yn fwy amlwg.

3. DIBEN Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Nod y system rheolaeth fewnol yw cadw risgiau ar lefel resymol, yn hytrach na dileu'n llwyr y risg y bydd PCGC yn methu â chyflawni'i pholisïau, ei nodau a'i hamcanion. Dim ond sicrwydd rhesymol y gall ei roi felly ynghylch effeithiolrwydd, yn hytrach na sicrwydd absoliwt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus, sydd â'r nod o gofnodi a blaenoriaethu'r risgiau, gwerthuso'r tebygolrwydd y cânt eu gwireddu a'r effaith y byddent yn ei chael, a'u rheoli'n effeithiol, effeithlon ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yn PCGC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, a hyd at ddyddiad cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolaeth.

3.1 Archwilio Allanol

Archwilio Cymru yw archwilwyr allanol PCGC. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi gweithio'n adeiladol gydag Archwilio Cymru ac roedd y meysydd a archwiliwyd ym mlwyddyn ariannol 2020/21 yn cynnwys:

- Datganiadau Sefyllfa (i bob cyfarfod);
- Adroddiad Sicrwydd 2019–20 ar gyfer Systemau TG GIG Cymru a letyir gan PCGC ;
- Llythyr Rheoli 2019/20;
- Adolygiad o gaffael Cyfarpar Diogelu Personol; a
- Threfniadau Sicrwydd 2020/21.

Caiff gwaith archwilwyr allanol ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio trwy adroddiadau cynnydd rheolaidd. Ystyrir eu gwaith yn brydon ac yn broffesiynol. Mae'r argymhellion yn berthnasol ac yn fuddiol i'r gwaith o lunio trefniadau sicrwydd a llywodraethu cyffredinol a lleihau risg. Mae perthnasau clir ac agored â swyddogion, ac mae'r adroddiadau yn gynhwysfawr ac yn ddestlus.

Yn ogystal â materion mewnol yn PCGC, mae'r archwilwyr allanol wedi diweddaru'r Pwyllgor Archwilio yn rheolaidd ynghylch datblygiadau ledled GIG Cymru ac mewn sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Mae'r trafodaethau hyn wedi helpu'r Pwyllgor Archwilio i wella'i ymwybyddiaeth o gyd-destun ehangach ei waith.

3.2 Archwilio Mewnol

Aeth y Pwyllgor Archwilio ati i bwyso a mesur gwaith a chanfyddiadau'r tîm archwilio mewnol. Mynychodd Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd a phenaethiaid perthnasol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol gyfarfodydd i drafod eu gwaith a chyflwyno'u canfyddiadau. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn fodlon ar y cydweithio a'r cydlynu rhwng archwilwyr mewnol ac allanol.

Cafodd adroddiadau chwarterol ynghylch y meysydd archwilio hynny lle nodwyd bod "dim sicrwydd" neu "sicrwydd cyfyngedig" eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn unol â chyfarwyddyd Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru/Cyfarwyddwr Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2016. Yn ystod 2020/21, ni chofnodwyd "dim sicrwydd" neu "sicrwydd cyfyngedig" yn yr un adroddiad archwilio mewnol.

Ar gyfer archwilio mewnol ac allanol ill dau, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi sicrhau bod y camau gweithredu ar gyfer rheolwyr y cytunwyd arnynt yn sgil gwendidau wedi cael eu rhoi ar waith mewn modd amserol. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Archwilio gydsynio i unrhyw newidiadau i'r amserlen ar gyfer rhoi cynlluniau gweithredu ar waith. Mae adroddiad ar wahân ar y sefyllfa gyda gweithredu argymhellion archwilio yn cael ei fonitro ym mhob Pwyllgor Archwilio ac mae hefyd yn cael ei weithredu ym mhob cyfarfod misol o'r Uwch Dîm Rheoli.

Roedd yr adroddiadau yn amserol ac roeddent wedi helpu'r Pwyllgor i wella'i ddealltwriaeth o'r risgiau ariannol a gweithredol. Yn ogystal â hyn, mae'r archwilwyr mewnol wedi darparu gwybodaeth meincnodi werthfawr yn ymwneud ag arferion gorau ledled GIG Cymru.

3.3 Gwrth-dwyll

Nod Gwasanaethau Atal Twyll lleol yw sicrhau bod nifer yr achosion o dwyll (a/neu lygredd) yn PCGC mor isel â phosibl.

Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio adroddiadau rheolaidd er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Atal Twyll, a oedd yn cynnwys adroddiadau am y canlynol:

- Diweddariad am gynnydd ymhob cyfarfod
- Adroddiad Blynyddol 2019–20
- Cynllun Gwaith y Gwasanaeth Atal Twyll 2020-21
- Cyflwyno Adnodd Hunanadolygu'r Gwasanaeth Atal Twyll 2019-20

Yn rhan o'i waith, mae gan y Gwasanaeth Atal Twyll raglen flynyddol reolaidd o godi ymwybyddiaeth am dwyll. Mae'r rhain yn digwydd dros nifer o ddiwrnodau ac maent yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Gwaith y Gwasanaeth Atal Twyll, sy'n cael sêl bendith Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol bob blwyddyn.

Yn rhan o'r Cynllun Gwaith hwnnw, trefnir sesiynau i godi ymwybyddiaeth o dwyll a chânt eu cynnal gyda grwpiau amrywiol o staff. Yn y sesiynau hyn bydd gwybodaeth am sut i adrodd am dwyll ac i bwy y dylid rhoi gwybod. Yn ystod 2020/21, darparwyd y sesiynau hyn yn rhithiol.

Yn ogystal â hyn, ac mewn ymgais i hyrwyddo diwylliant o atal twyll yn PCGC, cyhoeddir cylchlythyr chwarterol sydd ar gael i bob aelod o staff ar y fewnrwyd. Rhoddir cyhoeddusrwydd i bob erlyniad llwyddiannus i rybuddio pobl yn gryf yn erbyn cyflawni twyll.

3.4 Llywodraethu Integredig

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am gynnal system llywodraethu integredig effeithiol. Mae wedi goruchwylio'r broses gyfan trwy geisio adroddiadau penodol am sicrwydd, sy'n cynnwys:

- Y Cynllun Sicrhau Ansawdd a Gwella sy'n deillio o'r hunanasesiad Archwilio Mewnol 2019–20;
- Tracio argymhellion archwilio;
- Y Gofrestr Risg Gorfforaethol;
- Mapiau Sicrwydd Cyfarwyddiaethau; ac
- Adroddiadau Materion Llywodraethu ynghylch tendrau unigol, datganiadau o fuddiannau a rhoddion a lletygarwch a dderbyniwyd ac a wrthodwyd.

Yn ystod 2020/21, mynegodd y Pwyllgor Archwilio unrhyw bryderon oedd ganddo wrth Bwyllgor y Bartneriaeth, a chwaraeodd y Pwyllgor Archwilio ran ragweithiol yn y gwaith o gyfathrebu diwygiadau a awgrymir i weithdrefnau llywodraethu a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

3.5 Ansawdd

Yn ystod 2020/21, mae Pwyllgor y Bartneriaeth wedi rhoi sylw i sicrhau ansawdd gwasanaethau gan gynnwys adran ar "Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf" fel un o'r rhannau pwysicaf ar y templed adroddiadau pan yn drafftio adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor y Bartneriaeth. Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, cymeradwyodd Pwyllgor y Bartneriaeth sefydlu Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch PCGC yn ei gyfarfod ym mis Medi 2020, a disgwylir i hyn gyfarfod am y tro cyntaf yn 2021/22.

Yn ogystal â hyn, mae ansawdd gwasanaethau yn rhan bwysig iawn o'r trafodaethau rhwng PCGC a chyfarwyddwyr perthnasol Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn ystod cyfarfodydd adolygu chwarterol.

Mae Gwasanaethau Caffael yn cynnal ardystiad i nifer o safonau rhyngwladol a chenedlaethol gan gynnwys Rheoli Ansawdd ISO 9001, Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol BS ISO 45001 a Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer. Mae'r Storfeydd Rhanbarthol hefyd wedi'u hachredu i God Ymarfer a Safon Dechnegol STS hylendid bwyd ar gyfer y Sector Cyhoeddus. Ym mis Ionawr 2021 estynnwyd ein hardystiadau i gynnwys y storfa IP5 newydd yng Nghasnewydd gydag archwiliad llwyddiannus yn erbyn Safon Rheoli Ansawdd ISO 9001 a Safon Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol BS ISO 45001. Trosglwyddwyd hefyd o OHSAS 18001 i'r safon ryngwladol ISO 45001.

Ym mis Ionawr 2021, cadarnhaodd ein harchwiliad annibynnol yn erbyn y safon Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid gydymffurfiaeth barhaus a nododd 5 maes o 'Gydymffurfiaeth a Mwy' eithriadol. Mae ein Cynllun Ansawdd yn cynnwys amcanion a fydd yn ein gweld yn defnyddio'r Safonau cydnabyddedig hyn i safoni arfer ar draws ein swyddogaethau logisteg a rheoli deunyddiau, gan adeiladu ar y sylfeini a grëwyd eisoes a chefnogi ein cynlluniau ar gyfer datblygu a moderneiddio gwasanaethau.'

3.6 Edrych i'r dyfodol

O ganlyniad i'w waith yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio yn fodlon bod gan PCGC reolaethau mewnol priodol a chadarn ar waith a bod

y systemau llywodraethu a nodir yn y Rheolau Sefydlog wedi eu gwreiddio'n ddwfn yn y sefydliad.

Wrth edrych ymlaen i 2021-22, bydd y Pwyllgor Archwilio yn parhau i archwilio'r materion ariannol a'r materion yn ymwneud â rheoli, llywodraethu ac ansawdd sy'n rhan hanfodol o lwyddiant PCGC.

Yn benodol, bydd y Pwyllgor Archwilio yn:

- parhau i archwilio trefniadau llywodraethu a rheolaethau mewnol PCGC;
- monitro'n fanwl y risgiau y mae PCGC a'i darparwyr pwysicaf yn eu hwynebu;
- gweithio'n agos â grŵp Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio ar faterion yn ymwneud â llywodraethiant ariannol sy'n effeithio ar GIG Cymru a'r sector cyhoeddus yn ehangach;
- gweithio'n agos ag archwilwyr allanol a mewnol ar faterion sy'n deillio o agenda bresennol a dyfodol PCGC;
- sicrhau bod Pwyllgor y Bartneriaeth yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor Archwilio, gan gynnwys datblygiadau cadarnhaol a negyddol, a bydd yn
- gofyn am nifer o sesiynau "at wraidd y mater" i fynd i'r afael â meysydd penodol, er mwyn sicrhau bod modd rhoi sicrwydd digonol i'r Pwyllgor Archwilio ac i Bwyllgor y Bartneriaeth.

4. Y GALLU I DDELIO Â RISG

Fel yr amlygwyd o'r blaen, achosodd yr angen i gynllunio ac ymateb i bandemig COVID-19 nifer o heriau i'r sefydliad. Nodwyd nifer o risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Er bod gan y sefydliad gynllun digwyddiadau mawr a pharhad busnes ar waith, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004, mae graddfa ac effaith y pandemig wedi bod yn ddigynsail. Cymerwyd camau sylweddol ar lefel genedlaethol a lleol i baratoi ac ymateb i'r effaith debygol ar y sefydliad a'r boblogaeth. Mae hyn hefyd wedi cynnwys gweithio mewn partneriaeth ar yr ymateb amlasiantaethol fel aelod allweddol o'r Grŵp Cydgysylltu Strategol. Mae lefel o ansicrwydd o hyd ynghylch yr effaith gyffredinol y bydd hyn yn ei chael ar ddarparu gwasanaethau ar hyn o bryd ac yn y tymor hwy gan PCGC, er bod hyder bod yr holl gamau priodol yn cael eu cymryd, a bod yr holl wasanaethau wedi'u cynnal hyd yn hyn.

Mae'r sefydliad yn parhau i weithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru wrth iddi barhau gyda'i hymateb, a chynllunio i'r cyfnod adfer. Bydd angen sicrhau bod trefniadau rheoli risg cadarn a'r gallu i nodi, asesu a lliniaru risgiau a allai effeithio ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol yn sail i hyn.

Cofnodir y risgiau a nodwyd mewn Cofrestr Risg COVID-19 ar wahân a adroddwyd yn bennaf i'r Grŵp Cynllunio ac Ymateb, ond hefyd i bob cyfarfod o'r Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau, a'r

Pwyllgor Archwilio. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw risgiau COVID wedi'u graddio'n goch.

Yn ogystal â'r risgiau sy'n codi o ganlyniad i bandemig COVID-19, mae'r sefydliad yn wynebu risgiau eraill. Mae proffil risg y sefydliadau sy'n ymwneud â risgiau nad ydynt yn ymwneud â COVID-19 wedi cynnwys tri risg wedi'u graddio'n goch ym mlwyddyn ariannol 2020/21 fel a ganlyn:

- Cynlluniau ar gyfer disodli'r system NHAIS er mwyn caniatáu i daliadau gael eu gwneud i feddygon teulu;
- Yr angen i ddatblygu system fewnol ar gyfer talu Optegwyr; a'r
- Risgiau sy'n deillio o BREXIT heb gytundeb sydd wedi'i ddisodli gan oblygiadau'r cytundeb y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE ym mis Rhagfyr 2020, yn enwedig ar y gadwyn gyflenwi.

Ym mis Mawrth 2021, dim ond y cyntaf o'r risgiau uchod sy'n dal i gael ei ystyried yn risg coch a dylai hwn ddiflannu o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol pan fydd y system newydd yn mynd yn fyw yn ystod haf 2021.

Mae gan Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gyfrifoldeb ac awdurdod cyffredinol dros raglen rheoli risg PCGC, trwy dderbyn a gwerthuso adroddiadau sy'n nodi statws a chynnydd camau i reoli risg.

Y Cyfarwyddwr Arweiniol o ran rheoli risg yw'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, sy'n gyfrifol am lunio'r fframwaith polisi a'r systemau a'r prosesau sydd eu hangen i reoli risgiau yn y sefydliad.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth wedi'i chymeradwyo ar gyfer rheoli risg, ac mae gan PCGC brotocol rheoli risg sy'n seiliedig ar strategaeth ei sefydliad lletyol. Mae hyn yn golygu bod ymagwedd glir a systematig tuag at reoli risg yn PCGC. Ailgymeradwywyd y Protocol Risg gan yr Uwch Dîm Rheoli ym mis Ionawr 2020, a'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ebrill 2020.

Mae PCGC am integreiddio prosesau rheoli risg, fel y caiff y prosesau hyn eu hystyried i fod yn rhan annatod o sut y caiff y sefydliad ei reoli o ddydd i ddydd gan gynnwys cyllid, iechyd a diogelwch a'r amgylchedd, yn hytrach na bod y rhain yn cael eu hystyried i fod yn brosesau ar wahân.

Caiff y Gofrestr Risg Gorfforaethol ei hadolygu'n fisol gan yr Uwch Dîm Rheoli sy'n sicrhau bod risgiau allweddol yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth a'u bod yn cael eu hystyried a'u craffu gan yr Uwch Dîm Rheoli yn ei gyfanrwydd. Mae'r gofrestr wedi'i rhannu yn ddwy adran fel a ganlyn:

- Risgiau i Weithredu Arnynt – mae hyn yn cynnwys pob risg lle mae angen gweithredu pellach i gyrraedd y sgôr darged. Yn achos y risgiau hyn, dylid canolbwyntio ar sicrhau y caiff y camau gofynnol eu cwblhau'n amserol; a

- Risgiau i'w Monitro – mae hyn ar gyfer risgiau sydd wedi cyflawni eu sgôr darged, ond mae'n rhaid iddynt aros ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol oherwydd eu heffaith bosibl ar y sefydliad yn ei

gyfanrwydd. Yn achos y risgiau hyn, mae'r ffocws ar fonitro unrhyw newidiadau i natur y risg (e.e. oherwydd newidiadau amgylcheddol allanol) ac ar sicrhau bod rheolaethau a chamau gweithredu presennol yn parhau i fod yn effeithiol (e.e. trwy fapio sicrwydd).

Mae pob Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau yr eir i'r afael â risgiau yn y lleoliadau hynny sy'n berthnasol i'w Cyfarwyddiaethau. Mae hefyd yn bwysig bod strwythur effeithiol ar waith ledled PCGC ar gyfer rhoi adborth, fel y caiff risgiau rheng flaen eu dwyn i sylw i Gyfarwyddwyr.

Mae gofyn i bob Cyfarwyddwr roi diweddariad ynghylch y gofrestr risg sy'n benodol i'w gyfarwyddiaeth yn ystod cyfarfodydd adolygu chwarterol gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr. Caiff pob risg categori coch ar gofrestrau cyfarwyddiaethau unigol ei hadolygu'n awtomatig gan yr Uwch Dîm Rheoli ac, os yw'n briodol, caiff y risg honno ei hychwanegu at Gofrestr Risg Gorfforaethol PCGC.

Mae mapiau sicrwydd yn cael eu diweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn i bob un o'r cyfarwyddiaethau roi barn ar sut mae'r risgiau gweithredol, neu fusnes allweddol fel arfer yn cael eu lliniaru. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu'r holl fapiau sicrwydd yn flynyddol.

Mae datganiad Derbynioldeb Risg hefyd wedi'i ddogfennu a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio. Mae hyn yn cynnwys naw agwedd benodol ar weithgaredd PCGC gyda sgôr derbynioldeb ar wahân ar gyfer pob un. Mae gweithrediad y derbynioldeb risg trwy'r sgoriau targed yng nghofrestrau risg corfforaethol a chyfarwyddiaethau. Adolygwyd y Derbynioldeb Risg eto gan yr Uwch Dîm Rheoli ym mis Ionawr 2020 i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol, ac fe'i cyflwynwyd hefyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ebrill 2020.

Mae dull PCGC o reoli risgiau felly yn sicrhau:

- bod arweiniad ynghlwm wrth y broses o reoli risg;
- y caiff staff eu hyfforddi ynghylch sut i adnabod a rheoli risg;
- y caiff risgiau eu nodi, eu hasesu a'u blaenoriaethu gan sicrhau bod y camau priodol i'w lliniaru wedi eu hamlinellu ar y gofrestr risg;
- y caiff effeithiolrwydd rheolaethau allweddol eu gwirio'n rheolaidd; ac
- y cydymffurfir yn llawn â'r Llyfr Oren ar Reoli Risg.

5. Y FFRAMWAITH RISG A RHEOLI

Mae ymrwymiad PCGC i'r egwyddor y caiff risg ei rheoli'n effeithiol yn golygu ffocws parhaus i sicrhau:

- Ein bod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol lle gallai peidio â chydymffurfio beri risg ddifrifol;
- Bod pob ffynhonnell a chanlyniad risg wedi eu nodi, ac y caiff risgiau eu hasesu a naill ai eu dileu neu eu lleihau; y caiff gwybodaeth

ynghylch risg ei rhannu â staff ledled PCGC a chyda sefydliadau partner trwy Bwyllgor y Bartneriaeth a'r Pwyllgor Archwilio;
- Bod nifer yr achosion o ddifrod ac anafiadau yn fach, a bod iechyd a lles pobl ar eu gorau ac
- Y caiff gwersi eu dysgu yn sgil canmoliaeth, digwyddiadau a hawliadau er mwyn rhannu'r arfer gorau a'i gwneud yn llai tebygol y byddant yn digwydd eto.

5.1 Y Fframwaith Risg Gorfforaethol

Mae'r gweithdrefnau manwl ar gyfer rheoli risg gorfforaethol wedi eu hamlinellu uchod. Yn gyffredinol, i liniaru risgiau yn ymwneud â llywodraethu, mae PCGC yn rhagweithiol wrth adolygu ei gweithdrefnau llywodraethu ac wrth sicrhau bod rheoli risgiau wedi ei ymgorffori yn ei holl weithgarwch:

- Mae PCGC yn cael ei llywodraethu gan Reolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, sy'n cael eu hadolygu bob blwyddyn;
- Mae gan Bwyllgor y Bartneriaeth a'r Pwyllgor Archwilio ill dau flaengynlluniau gwaith ar gyfer busnes pwyllgor sy'n darparu fframwaith sicrwydd ar gyfer cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaeth a rheoliadau;
- Caiff effeithiolrwydd strwythurau llywodraethu ei adolygu'n rheolaidd trwy holiaduron effeithiolrwydd pwyllgor;
- Mae clawr blaen profforma adroddiadau pwyllgorau yn cynnwys dadansoddiad effaith cryno i'w gwblhau cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno. Mae hyn yn cynnwys crynodeb o effeithiau posibl yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, goblygiadau cyfreithiol, ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf, risgiau a sicrwydd, Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, y Safonau Iechyd a Gofal a'r gweithlu;
- Mae'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth sydd yn eu lle gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn nodi'r trefniadau gweithredol ar gyfer y gwasanaethau y mae PCGC yn eu darparu iddynt, a chaiff y rhain eu hadolygu bob blwyddyn;
- Mae PCGC yn rhagweithiol wrth gwblhau fframwaith Safonau Iechyd a Gofal Llywodraeth Cymru, a sicrhaodd fod Thema 2 – Gofal Diogel yn rhoi darlun clir o ymagwedd PCGC at iechyd, diogelwch a rheoli risg ac
- mae cyfrifoldebau cyfarwyddwyr yn cael eu hadolygu mewn Adolygiadau Blynyddol o Berfformiad a Datblygiad (PADRs).

5.2 Polisïau a Gweithdrefnau

Mae PCGC yn dilyn polisïau a gweithdrefnau yr Ymddiriedolaeth fel y sefydliad lletyol. Yn ogystal â hyn, mae nifer o bolisïau gweithlu wedi eu datblygu a'u lledaenu ledled Cymru trwy Fforwm Partneriaeth Cymru, ac mae'r rhain yn berthnasol i bob aelod o staff yn PCGC.

Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'r fewnrwyd lle mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gael ac mae ganddynt oll fynediad ati. Mewn nifer o achosion mae canllawiau atodol wedi eu darparu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod gan PCGC fynediad i holl bolisïau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth a bod unrhyw newidiadau i'r polisïau yn cael eu gwneud yn hysbys fel y cytunwyd arnynt. Mae PCGC yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau gweithlu gyda'r sefydliad lletyol, ac mae wedi llunio gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori â staff.

Bydd Pwyllgor y Bartneriaeth, lle y bo hynny'n briodol, yn datblygu ei brotocolau ei hun neu'n diwygio polisïau, os ydynt yn berthnasol i swyddogaethau busnes PCGC. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr a swyddogion dynodedig eraill PCGC wedi eu cynnwys yng Nghynllun Dirprwyo yr Ymddiriedolaeth.

Yn ystod y flwyddyn, roedd yr angen i ymateb ar frys er mwyn cwrdd â'r galw digynsail am Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) a dyfeisiau meddygol a nwyddau traul eraill, yn gofyn am ddiwygiad sylweddol i'r Cynllun Dirprwyo presennol sy'n rhan o'r Rheolau Sefydlog ar gyfer PCGC. Cytunwyd i ddechrau ar 18 Mawrth 2020 i gynyddu'r terfynau awdurdodi dirprwyedig ar gyfer y Cadeirydd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr ar gyfer gwariant COVID 19 i £2M. Cynyddwyd hyn wedyn i £5M o 30 Mawrth 2020. Fodd bynnag, mae contractau a gorchmynion ar gyfer gwariant COVID dros £5M yn dal i fod angen eu cymeradwyo gan Fwrdd Ymddiriedolaeth Felindre, a allai er hwylustod, fod angen bod drwy'r dull presennol o weithredu'r Cadeirydd. Mae angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o hyd ar bob archeb dros £1m neu daliadau ymlaen llaw sy'n werth 25% neu fwy o werth y contract. Cytunodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth i ymestyn y terfynau hyn i 31 Mawrth 2021, ac ers hynny mae hyn wedi'i ymestyn ymhellach hyd at 30 Mehefin 2021.

Cafodd y rhan fwyaf o gontractau a ddyfarnwyd ar gyfer PPE yn ystod y flwyddyn eu cwmpasu gan y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 cyfredol, sy'n rhoi opsiwn i gyfeirio contractau dyfarnu i gwmnïau oherwydd brys eithafol o dan reoliad 32(2)(c). Mae COVID-19 yn dod o dan eithriad y cymal hwn, ac felly gwnaed defnydd o hyn i gaffael PPE ac offer cysylltiedig.

Yn ddiweddar, mae Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad o gaffael a chyflenwi PPE yn ystod y pandemig. Mae'r adroddiad yn gadarnhaol iawn ar y cyfan ond mae'n cynnwys y canfyddiad nad oedd y "Cydwasanaethau'n bodloni gofynion cyfreithiol o dan reolau caffael brys i gyhoeddi manylion pob contract o fewn 30 diwrnod. Canfu'r Uchel Lys fod Llywodraeth y DU wedi gweithredu'n anghyfreithlon drwy beidio â chyhoeddi manylion ei chontractau ar gyfer PPE yn yr un modd." Mae'r mater hwn bellach wedi cael sylw.

5.3 Llywodraethu Gwybodaeth

Mae PCGC wedi sefydlu trefniadau ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ei rheoli yn unol â'r gyfraith a deddfwriaeth foesegol berthnasol, rheoliadau cymwys ac mae'n dilyn

cyngor gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth pan fo angen. Mae hyn yn cynnwys cyfreithiau sefydledig fel y Ddeddf Diogelu Data, Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin, y Ddeddf Hawliau Dynol, Adroddiad Caldicott ac egwyddorion penodol yn ymwneud â rheoli cofnodion. Cynyddodd gweithredu'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ym mis Mai 2018 y cyfrifoldebau i sicrhau bod y data y mae PCGC yn eu casglu, a'u prosesu wedi hynny, at ddibenion cydnaws, a'u bod yn parhau i fod yn ddiogel ac yn gyfrinachol tra byddant yn ei gofal.

Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yw'r Uwch-Berchennog Risg Gwybodaeth dynodedig (SIRO) mewn perthynas â Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer PCGC. Mae gan PCGC Reolwr Llywodraethu Gwybodaeth, sydd â'r nod o hwyluso'r defnydd effeithiol o reolaethau a mecanweithiau er mwyn sicrhau bod staff yn cydymffurfio ag egwyddorion a gweithdrefnau sylfaenol Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r gwaith hefyd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth trwy fodiwl e-ddysgu sgiliau craidd am Lywodraethu Gwybodaeth, hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth (lle bo hynny'n bosibl) ar gyfer grwpiau staff y nodwyd eu bod yn risg uchel, datblygu ac adolygu polisïau a phrotocolau i ddiogelu gwybodaeth a chynnig cyngor ar doriadau Llywodraethu Gwybodaeth sydd wedi eu cofnodi ar system adrodd Datix, ac ymchwilio iddynt.

Mae'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yn gyfrifol am sicrhau bod diogelu cyfrinachedd yn parhau i fod yn uchel iawn ar yr agenda. Mae hyn yn cynnwys adran bwrpasol am Lywodraethu Gwybodaeth ar y fewnrwyd a phwynt cyswllt penodedig (trwy ActionPoint) ar gyfer unrhyw geisiadau am gyngor, hyfforddiant neu waith.

Mae gan PCGC Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth ac sy'n cyflawni rôl Gweinyddwyr Asedau Gwybodaeth ar gyfer PCGC. Bob chwarter, mae'r Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth yn trafod materion fel Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddfwriaeth Diogelu Data, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, Perchnogaeth Asedau Gwybodaeth, Toriadau Llywodraethu Gwybodaeth, Rheoli Cofnodion, cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant, canllawiau a deunyddiau hyfforddiant newydd, meysydd sy'n peri pryder a'r wybodaeth a'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

Mae gan PCGC gyfres o brotocolau a chanllawiau a ddefnyddir i hyfforddi staff ynghylch pwysigrwydd cyfrinachedd ac i godi eu hymwybyddiaeth amdano, ac i sicrhau bod pob maes yn cael sylw. Mae'r rhain yn cynnwys arfer da o ran cyfrineiriau ac e-byst, protocolau cryno a chanllawiau cyffredinol ar gyfer staff. Mae proses ar waith o'r enw Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd (neu "Preifatrwydd Trwy Ddyluniad") hefyd i sicrhau y caiff egwyddorion Llywodraethu Gwybodaeth eu hystyried yng nghamau cynnar prosiectau, prosesau a llifoedd gwaith sy'n bwriadu defnyddio gwybodaeth adnabyddadwy ar ryw ffurf.

Mae PCGC wedi datblygu proses Asesiad Effaith Integredig i gynnwys gofynion sicrwydd ehangach o ran deddfwriaeth a rheoliadau, ac mae'r profforma yn cynnwys yr angen i ystyried effaith nodweddion gwarchodedig

(gan gynnwys hil, rhyw a chrefydd) ar y gwahanol fathau o brotocolau Llywodraethu Gwybodaeth.

Mae'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yn mynd i wahanol gyfarfodydd gan gynnwys Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg a Llywodraethu Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth a Grŵp Ymgynghorol Llywodraethu Gwybodaeth GIG Cymru a letyir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, ac mae Byrddau Iechyd GIG Cymru'n mynychu pob un o'r rhain.

Cynhyrchir adroddiad blynyddol ar Lywodraethu Gwybodaeth yn PCGC. Cyflwynwyd hwn i'r Uwch Dîm Rheoli ym mis Mehefin 2020.

5.4 Atal Twyll

Mae cefnogaeth ar gyfer Atal Twyll wedi ei hymgorffori yn y cytundeb lletya gyda'r Ymddiriedolaeth. O dan y cytundeb hwn, darperir gwasanaethau atal twyll i PCGC gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae effaith y pandemig ac adleoli penodol ac yna absenoldeb salwch yr Arbenigwr Gwrth-dwyll Lleol ar gyfer PCGC wedi arwain at ostyngiad yn narpariaeth y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn fel mai dim ond 58 o'r 75 diwrnod dan gontract a ddarparwyd.

Yn ogystal â hyn, mae PCGC yn arwain Grŵp Llywio Atal Twyll GIG Cymru, a hwylusir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cydweithio â'r Awdurdod Atal Twyll yn NHS England i ddatblygu a chryfhau gwasanaethau atal twyll ledled GIG Cymru. Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cadeirio'r grŵp.

Mae gan y Grŵp Strategaeth Ymladd Twyll y GIG ar gyfer Cymru, gyda chynllun gweithredu cysylltiedig sy'n cael ei adolygu yng nghyfarfodydd chwarterol Grŵp Llywio Atal Twyll GIG Cymru. Gwnaed gwaith hefyd i wella a mireinio adroddiadau chwarterol Arbenigwyr Atal Twyll Lleol, a Thîm Gwasanaeth Atal Twyll Cymru. Cyflwynir adroddiadau i gyfarfodydd Grŵp Llywio Atal Twyll GIG Cymru, ac yna cânt eu rhannu â Llywodraeth Cymru a Chyfarwyddwyr Grŵp Cyllid GIG Cymru.

Yn ystod 2020/21 derbyniodd y Grŵp adroddiad "Gwella ein Perfformiad" a gynhyrchwyd gan Archwilio Cymru ac a oedd yn asesu'r trefniadau gwrth-dwyll a oedd ar waith ar draws GIG Cymru a llywodraeth leol a chanolog. Er bod canfyddiadau'r adolygiad yn gadarnhaol i raddau helaeth, roedd rhai argymhellion ar gyfer pob sector, ac mae camau gweithredu i ymateb i'r argymhellion hyn wedi'u cynnwys mewn cynllun gweithredu cyfunol sydd hefyd yn cynnwys y camau gofynnol o'r Strategaeth Ymladd Twyll.

5.5 Archwilio Mewnol

Fe nodir yng nghytundeb lletya PCGC y bydd Pwyllgor y Bartneriaeth yn sefydlu gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol fel prif ffynhonnell ei drefniadau sicrwydd mewnol, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cymeradwyo strategaeth archwilio mewnol ar gyfer PCGC sy'n berthnasol i bob adran a phroses yn y sefydliad, ac sy'n ddigonol i roi sicrwydd i Reolwr Gyfarwyddwr PCGC, ac i Bwyllgor y Bartneriaeth ac i'r Ymddiriedolaeth fel y sefydliad lletyol yn eu tro, ynghylch y fframwaith rheolaeth fewnol sydd ar waith yn PCGC.

Ar ôl cyhoeddi'r cynllun archwilio ar gyfer PCGC, bydd Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi ei farn ynghylch y prosesau llywodraethu, risg a rheoli sydd ar waith yn PCGC. Mae'r farn honno yn ffynhonnell bwysig o sicrwydd i'r Rheolwr Gyfarwyddwr wrth iddo adrodd i Bwyllgor y Bartneriaeth a sefydliadau partner.

5.6 Y Cynllun Tymor Canolig Integredig

Mae'r pandemig wedi arwain at ganllawiau diwygiedig gan Lywodraeth Cymru sydd wedi ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG ganolbwyntio ar gynllun blynyddol yn hytrach na Chynllun Tymor Canolig Integredig sy'n cwmpasu tair blynedd. Mae PCGC wedi cydymffurfio â'r gofyniad hwn ond mae hefyd wedi cynnal dull tymor hwy gyda chynllun ar gyfer 2021/22 sy'n cynnwys edrych ymlaen at 2022/24.

Caiff y Cynllun ei gymeradwyo gan Bwyllgor y Bartneriaeth a chaiff perfformiad yn erbyn y cynllun ei fonitro trwy gydol y flwyddyn. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i ddiwygio'r fframwaith perfformiad er mwyn sicrhau ei fod wedi'i integreiddio'n llawn â'r blaenoriaethau allweddol sydd yn y cynllun. Mae creu swydd newydd Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg ym mis Tachwedd 2020 yn rhoi hwb ychwanegol a strategol i'r agenda hon ac mae hefyd yn sicrhau bod y ffrydiau gwaith cynllunio a pherfformiad yn cael eu cydgysylltu'n effeithiol. Cyflawnwyd y mwyafrif helaeth o'r targedau perfformiad ar gyfer 2020/21 a rhoddir gwybod i'r Uwch Dîm Rheoli a Phwyllgor y Bartneriaeth am gynnydd yn erbyn pob un o'r rhain. Rhagwelir y bydd adrodd rheolaidd i ofynion Llywodraeth Cymru ar gynnydd yn erbyn y cynllun fel yr oedd yn ystod 2019/20.

Mae'r broses gynllunio'n cynnwys ymgysylltu sylweddol â rhanddeiliaid allweddol, yn fewnol ac ar draws GIG Cymru a'r sector cyhoeddus yn ehangach, mewn digwyddiadau tîm rhithiol ac ar sail un i un. Trafodwyd y cynllun gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ddechrau mis Mawrth 2021 ac roeddent yn canmol y cynnwys a'r cyflwyniad yn fawr, ac yn enwedig yr adran cynllun ar dudalen.

5.7 Safonau Iechyd a Gofal GIG Cymru



Mae'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn darparu fframwaith ar gyfer safonau cyson o ymarfer a darpariaeth ledled GIG Cymru, ac maent yn sicrhau bod gwasanaethau'n gwella'n barhaus. Yn unol â'r rhaglen o Archwiliadau Mewnol, caiff y broses ei phrofi ac mae hon yn rhan greiddiol o fframwaith sicrwydd y sefydliad.

Mae Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal yn cynnwys saith prif thema ac is-feini prawf, ac mae'n rhaid i gyrff yn y GIG ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rhain.

Dyma'r broses ar gyfer cynnal hunanasesiadau blynyddol:

- Mae Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cynnal gwerthusiad cychwynnol;
- Caiff hunanasesiad drafft ei gyflwyno wedyn i'r Uwch Dîm Rheoli i'w drafod, a bydd rhagor o ymgynghori'n digwydd ar lefel Cyfarwyddiaeth;
- Caiff adborth gan bob Cyfarwyddiaeth ei adolygu a'i ymgorffori yn y profforma hunanasesu, cyn cael ei ailgyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli er mwyn iddo ei gymeradwyo'n derfynol.
- Unwaith y bydd wedi ei gymeradwyo, caiff ei gyflwyno i Bwyllgor y Bartneriaeth, y Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth.

Caiff pob thema ei hasesu a rhoddir sgôr hunanasesu gyffredinol rhwng 1 a 5. Fel sefydliad sy'n darparu gwasanaethau anghlinigol yn bennaf, nid yw pob un o'r is-feini prawf yn berthnasol.

Mae crynodeb o'r sgoriau hunanasesu isod:

Ffigur 9 – Sgoriau Hunanasesu ar gyfer Safonau Iechyd a Gofal 2020/2021

Thema	Arweinydd Gweithredol	2020/21 Sgôr Hunanasesu	2019/20 Sgôr Hunanasesu
Llywodraethiant, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Yr Uwch Dîm Rheoli	4	4
Aros yn iach	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	4	4
Gofal Diogel	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	4	4

Thema	Arweinydd Gweithredol	2020/21 Sgôr Hunanasesu	2019/20 Sgôr Hunanasesu
	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol		
Gofal Effeithiol	Yr Uwch Dîm Rheoli	4	4
Gofal ag Urddas	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gofal Amserol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gofal Unigol	Yr Uwch Dîm Rheoli	4	4
Staff ac Adnoddau	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	4	4

Mae'r sgôr gyffredinol ar gyfer y modiwl Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd a'r saith thema yn y Safonau Iechyd a Gofal yn dangos bod PCGC yn cydymffurfio â'r safonau at ei gilydd, ac mae cael sgôr o 4 fel y gwelir isod:

Ffigur 10 - Sgôr Hunanasesu Gyffredinol PCGC ar gyfer Safonau Iechyd a Gofal 2020/2021.

Lefel Asesu	**1** Nid ydym yn deall eto ble rydym arni (nac ychwaith pa mor dda rydym yn gwneud) na beth mae'n rhaid inni ei wella a ble	**2** Rydym yn ymwybodol o'r gwelliannau y mae'n rhaid eu gwneud ac rydym wedi eu blaenoriaethu, ond nid ydym eto yn gallu dangos ein bod wedi cymryd camau ystyrlon	**3** Rydym wrthi'n datblygu cynlluniau a phrosesau a gallwn ddangos bod cynnydd wedi bod o ran y prif feysydd y mae'n rhaid eu gwella.	**4** Mae gennym gynlluniau a phrosesau datblygedig a gallwn ddangos bod gwelliannau cynaliadwy wedi eu gwneud ledled y sefydliad / busnes	**5** Gallwn ddangos arfer da ac arloesedd parhaus y gall eraill ddysgu oddi wrthynt, ac mae hyn i'w weld ledled y sefydliad / busnesau
Sgôr				✓	

6. DATGELIADAU GORFODOL

Yn ogystal â'r angen i nodi cynnydd o ran cyflenwi'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru, mae gofyn i PCGC adrodd hefyd fod trefniadau ar waith i reoli'r materion llywodraethu canlynol ac i ymateb iddynt:

6.1 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae PCGC wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu, gwerthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb cyfle ym mhopeth a wnawn. Blaenoriaeth PCGC yw meithrin diwylliant lle caiff pawb ei werthfawrogi am y cyfraniad y gall ei wneud i'r gwasanaethau yn GIG Cymru. Fel sefydliad anstatudol a letyir yn yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i PCGC gadw at Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Ymddiriedolaeth, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion, sy'n nodi ymrwymiad a gofynion deddfwriaethol yr Ymddiriedolaeth i hyrwyddo cynhwysiant.

Cadeiriodd Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol PCGC Grŵp Arweinyddiaeth Cydraddoldeb GIG Cymru, sy'n gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ar draws GIG Cymru a'r sector cyhoeddus yn ehangach, i gydweithio ar ddigwyddiadau, hwyluso gweithdai, cyflwyno a chynnal sesiynau hyfforddi, cyhoeddi cyfathrebiadau ac erthyglau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ynghyd â hyrwyddo urddas a pharch at bawb. Mae PCGC yn rhagweithiol wrth gefnogi sefydliadau GIG Cymru i gwblhau eu cyflwyniad ar gyfer gwasanaethau Cymru gyfan, megis Caffael a Recriwtio.

Mae'r broses ar gyfer cynnal Asesiadau Integredig o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIIA) wedi aeddfedu, ac yn ystyried anghenion y nodweddion gwarchodedig a nodwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru a Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae hefyd yn cydnabod effeithiau posibl gan alluogwyr allweddol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ymgorffori Cynaliadwyedd Amgylcheddol, Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 sy'n ymgorffori Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi 2017, Iaith Gymraeg, Llywodraethu Gwybodaeth ac Iechyd a Diogelwch.

O, 31 Mawrth 2021, mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn rhoi cyfrifoldeb ar gyrff y GIG pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Rhoddwyd cyflwyniad ar y pwnc hwn gan ddau gyfreithiwr o'n Cyfarwyddiaeth Gyfreithiol a Risg i Uwch Dîm Rheoli Anffurfiol Ebrill 2021.

Caiff data personol ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth eu casglu ar y Cofnod Staff Electronig (ESR), ac mae staff yn gyfrifol am ddiweddaru eu cofnodion personol eu hunain ar y system honno. Mae hyn yn cynnwys ethnigrwydd; cenedligrwydd; gwlad enedigol; credoau crefyddol; cyfeiriadedd rhywiol a chymwyseddau Cymraeg. Mae gwasanaeth recriwtio "NHS Jobs" ar gyfer Cymru gyfan, sy'n cael ei redeg gan PCGC, yn cadw at bob un o arferion ac egwyddorion y Ddeddf Cydraddoldeb, ac mae'n gwirio ansawdd yr hysbysebion a'r wybodaeth ategol i sicrhau nad oes dim ynddynt sy'n wahaniaethol.

Mae gan PCGC raglen sefydlu statudol a gorfodol ar gyfer ei gweithlu, gan gynnwys modiwl e-ddysgu "Fy Nhrin yn Deg" GIG Cymru, sy'n rhan o becyn

hyfforddi cenedlaethol ac mae'r data ystadegol a gasglwyd ar gyfer ei gwblhau gan PCGC yn cyfrannu at y ffigur cyffredinol ar gyfer GIG Cymru. Mae rhaglen hyfforddiant o'r enw "Core Skills for Managers" ac mae'r modiwl "Managing Conflict" yn cynnwys sesiwn ymwybyddiaeth ynghylch Urddas yn y Gwaith.

6.2 Y Gymraeg

Mae PCGC wedi ymrwymo i sicrhau y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal yn y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd ac i sefydliadau eraill yn GIG Cymru. Gwawn hyn yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg cyfredol yr Ymddiriedolaeth, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2018.

Mae PCGC yn adrodd am y gwaith mae'n ei wneud o ran ei darpariaeth Gymraeg a'i pherfformiad i Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Mae Swyddog y Gymraeg a thîm o gyfieithwyr yn gwneud y gwaith hwn yn bennaf.

Mae'r swyddi hyn yn galluogi cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfredol o dan y Cynllun Iaith Gymraeg ac wrth fodloni gofynion Safonau'r Gymraeg. Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol y galw am wasanaethau cyfieithu yn y meysydd canlynol:

- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau;
- Safonau Llunio Polisi;
- Safonau Gweithredu;
- Safonau Cadw Cofnodion;
- Safonau Atodol.

Mae PCGC wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu a thyfu ei gwasanaethau Cymraeg trwy gynnig y cyfle i'r holl staff ddysgu Cymraeg yn y gwaith. Mae gwefan PCGC yn ddwyieithog a bu buddsoddiad mewn datblygu rhyngwyneb ymgeisydd Cymraeg ar system recriwtio TRAC. Mae PCGC hefyd yn cynnig gwasanaethau iaith i sefydliadau eraill ac wedi darparu gwasanaethau cyfieithu ac iaith eraill i Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cynhyrchir adroddiad blynyddol ar berfformiad gyda gwasanaethau Cymraeg hefyd ac fe'i cyflwynwyd i'r Uwch Dîm Rheoli ym mis Hydref 2020 ac i Bwyllgor y Bartneriaeth ym mis Ionawr 2021.

6.3 Delio â Chwynion a Phryderon

Mae PCGC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'w chwsmeriaid. Adolygir Protocol Rheoli Materion a Chwynion PCGC yn flynyddol. Mae'r protocol hwn yn cyd-fynd â Pholisi Delio â Chwynion Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 a Chanllawiau Gweithio i Wella.

Yn ystod 2020–21, derbyniwyd 26 o gwynion, o'r rhain:

- Ymatebwyd i 18 cwyn o fewn 30 diwrnod gwaith (69%); ac
- Ymatebwyd i 8 cwyn y tu allan i 30 diwrnod gwaith (31%).

Fel y nodwyd uchod, dim ond 69% o'r cwynion a dderbyniwyd yr ymatebwyd iddynt o fewn y targed o 30 diwrnod gwaith. Fodd bynnag, mae hyn yn gynnydd mewn perfformiad o'i gymharu â chydymffurfiaeth o 40% yn ystod 2019-20, yn seiliedig ar 30 o gwynion a dderbyniwyd. Yn ogystal, cynyddodd y perfformiad o ran prydlondeb yr ymateb yn sylweddol yn ystod hanner olaf y flwyddyn yn dilyn ailstrwythuro rheolwyr yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyflogaeth.

Pan gyhoeddwyd ymatebion y tu allan i'r targed, roedd achosion yn arbennig o gymhleth eu natur ac roedd yr oedi o ganlyniad i absenoldeb staff, yn benodol o fewn Gwasanaethau Cyflogaeth. Fodd bynnag, anfonwyd llythyrau ateb dros dro a/neu gwnaed galwadau ffôn i bob un o'r achwynwyr ym mhob achos yn egluro bod PCGC wrthi o hyd yn ymchwilio i'r materion a godwyd ac y byddai'n darparu ymateb cynhwysfawr ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben.

6.4 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi'r hawl i gyhoedd y DU gael mynediad at amrywiaeth o wybodaeth gan gyrff cyhoeddus, ac mae'r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod ymrwymiad i dryloywder ac ymagwedd fwy agored yn y sector cyhoeddus, yn enwedig o ran y rhai sy'n atebol am benderfyniadau a wneir ar ran cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Ffigur 12 – Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth 2020-21

Derbyniodd PCGC 113 cais yn ystod 2020/21. Ailgyfeiriwyd rhai o'r rhain at gyrff eraill i gael ymateb ond cafodd mwyafrif y rhai a dderbyniwyd eu trin o fewn y terfyn amser penodedig o 20 diwrnod ar gyfer ceisiadau. Atebwyd 18 cais ychydig dros y dyddiad cau ar gyfer cydymffurfio ond roedd hyn oherwydd cymhlethdod y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y ceisiadau hynny a'r mewnbwn pellgyrhaeddol sy'n ofynnol gan bartïon eraill i gytuno ar yr wybodaeth sydd i'w darparu.

Dadansoddiad o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth
Ymatebwyd i 72 o fewn y targed o 20 diwrnod
Trosglwyddwyd 23 allan i gorff GIG arall
Ymatebwyd i 18 y tu allan i'r dyddiad cau

6.5 Diogelwch a Llywodraethu Data

Yn 2020/21, cofnodwyd 34 o achosion o dorri rheolau llywodraethu gwybodaeth yn PCGC. Roedd anfon e-byst at y person anghywir a chamgymeriadau wrth reoli cofnodion ymhlith yr achosion hyn. Gwall dynol oedd mwyafrif y rhain ac er gwaethaf addysg a ddarparwyd yn effeithiol i

sicrhau ymwybyddiaeth o gyfrinachedd ac adrodd ar fynediad diawdurdod at ddata yn effeithiol, gall gwallau ddigwydd, yn anffodus.

Anogir staff i adrodd am bob math o dorri cyfrinachedd fel pryder ni waeth a ydynt yn tarddu o'r sefydliad ai peidio. Yn 2020/21, adroddwyd am 65 achos o dorri rheolau; roedd 31 o'r rheiny yn ddigwyddiadau y tu hwnt i reolaeth PCGC.

Cofnodir pob achos o dorri rheolau ym meddalwedd rheoli risg Datix a gafodd ei huwchraddio a'i hail-lansio fel RLDatix ym mis Ionawr 2020, ac ymchwiliwyd iddynt yn unol â'r protocolau Llywodraethu Gwybodaeth ac Adrodd ar Fynediad Diawdurdod at Ddata, sy'n cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae'r protocolau yn annog staff i roi gwybod am yr achosion hynny o dorri'r rheolau a ddigwyddodd y tu allan i'r sefydliad at ddibenion cofnodi.

Ar sail hyn bydd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yn ysgrifennu adroddiadau bob chwarter fydd yn cynnwys argymhellion perthnasol ac yn nodi'r meysydd y dylid eu gwella, er mwyn ei gwneud yn llai tebygol y bydd yr achosion hyn yn digwydd eto. Mae gofyn i aelodau o Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth roi adroddiad am unrhyw ddigwyddiadau yn eu meysydd, a ddylai gynnwys gwybodaeth am unrhyw wersi a ddysgwyd ac unrhyw newidiadau sydd wedi eu gwneud ers dod yn ymwybodol o'r digwyddiad.

Nid oedd un achos o dorri rheolau Llywodraethu Gwybodaeth yn 2020/21 a ystyriwyd i fod yn ddigon difrifol fel bod rhaid rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth amdano ar gyfer ymchwiliad pellach.

6.6 ISO14001 – Rheolaeth Amgylcheddol a Lleihau Carbon

Mae PCGC wedi ymrwymo i reoli ei heffaith amgylcheddol, lleihau ei hôl troed carbon ac integreiddio egwyddor datblygu cynaliadwy mewn busnes o ddydd i ddydd. Llwyddodd PCGC i weithredu ISO14001 fel ei System Rheoli Amgylcheddol, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ac mae wedi cynnal ardystiad yn llwyddiannus ers mis Awst 2014, trwy weithredu gwella parhaus y model Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu.

Cynhelir archwiliadau gwyliadwriaeth blynyddol i asesu cydymffurfiad barhaus â'r Safon. Cynhaliwyd yr asesiad allanol diwethaf ym mis Awst 2019 a chafodd archwiliadau pellach eu gohirio gan y pandemig. Mae'r archwiliad nesaf wedi'i drefnu ar gyfer haf 2021. Mae Safon 2015: ISO14001 yn rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelu'r amgylchedd, gwelliant parhaus trwy ddull sy'n seiliedig ar broses risg ac ymrwymiad i arweinyddiaeth o'r brig i lawr, wrth reoli anghenion a disgwyliadau partïon sydd â diddordeb a dangos perfformiad amgylcheddol cadarn, trwy reoli effaith gweithgareddau, cynhyrchion neu wasanaethau ar yr amgylchedd. Mae PCGC wedi ymrwymo i wella'r amgylchedd ac mae gennym System Rheolaeth Amgylcheddol gynhwysfawr er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Polisi Amgylcheddol.

Ôl-troed Carbon

Gwnaethom ymrwymo i leihau ein hôl troed carbon trwy weithredu amrywiol fentrau ac effeithlonrwydd amgylcheddol ar ein safleoedd o fewn cwmpas ein hardystiad 2015: ISO14001. Fel rhan o'n hymrwymiad i leihau ein cyfraniad tuag at newid hinsawdd, cytunwyd ar darged o ostyngiad o 3% yn ein hallyriadau carbon (flwyddyn ar ôl blwyddyn, o linell sylfaen o ôl-troed carbon a sefydlwyd yn 2016–17), ac adlewyrchwyd hyn yn ein Hamcanion Cynaliadwyedd Amgylcheddol.

Yn ystod 2020-21, cyflawnwyd ein targed a chawsom ostyngiad o 16.25% yn gyffredinol mewn allyriadau CO2 lle'r oedd yn bosibl cymharu'n uniongyrchol â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod 2020/21 bydd PCGC yn datblygu ei gynllun cyflawni datgarboneiddio yn unol â'r rhaglen waith genedlaethol. Mae ein tîm Ystadau Arbenigol yn arwain ar hyn.

Area	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	Target	Target Achieved
Electricity CO2e	11% reduction	18% reduction	11.5% reduction	27% reduction	15% Reduction	3% reduction	✓
Gas CO2e	13% increase	7% reduction	38% reduction	35% increase	31% Reduction	3% reduction	✓
Water M3	51% increase	9% reduction	6% increase	50% reduction	46% redcution	3% reduction	✓
Waste CO2e	62% recycled/recovered	95% recycled/recovered	89% recycled/recovered	94.68% recycled/recovered	Agile working implemented. Data not not available for the period	70% recycled/recovered	
Business Mileage Expenditure	6% reduction	15% reduction	11% increase	14% reduction	71% reduction	15% reduction by 2021	✓
Business Mileage	7% reduction	11% reduction	10% increase	19% reduction	75% reduction	15% reduction by 2021	✓
Overall Carbon Footprint	**5.37% Increase**	**3.78% Reduction**	**11.32% Reduction**	**12.04% Reduction**	**16.25% Reduction**		**X**

6.7 Cynllunio Parhad Busnes / Parodrwydd am Argyfyngau

Pan ddaeth effaith debygol COVID-19 i'r amlwg, gweithredwyd prosesau Parhad Busnes PCGC ar unwaith. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu Grŵp Cynllunio ac Ymateb, yn cynnwys yr Uwch Dîm Rheoli ynghyd â chynrychiolwyr o'r Undebau Llafur, Labordy Profi Llawfeddygol a Deunyddiau, Dirprwy Gyfarwyddwyr, a'r tîm Cyfathrebu. Cyfarfu'r Grŵp sawl gwaith yr wythnos ar ddechrau'r pandemig ac roedd y penderfyniadau a wnaed gan y Grŵp i gryfhau cydnerthedd busnes yn cynnwys:

- Ei gwneud yn ofynnol i bob cyfarwyddiaeth ddiweddaru eu cynlluniau parhad busnes eu hunain a/neu gardiau gweithredu cynllun parhad busnes;
- Sefydlu is-grwpiau i ganolbwyntio ar TG ac ar ddiogelwch a hygyrchedd ein hadeiladau;
- Sicrhau bod cymaint o staff â phosibl yn cael gliniaduron a VPNs i'w galluogi i weithio o bell – rhoddwyd dros 450 o bob un i staff yn ystod wythnosau cyntaf y pandemig;
- Cynyddu nifer y ffonau meddal sydd ar gael fel bod staff yn gallu gwneud a derbyn galwadau allanol o'u gliniaduron;
- Cyfarwyddo Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i drosglwyddo'r holl staff i Office365 a oedd unwaith eto'n cynyddu gallu staff PCGC i

weithio o bell – trosglwyddwyd dros 1500 o staff mewn cyfnod o dair wythnos:

- Sicrhau bod mesurau ymbellhau cymdeithasol yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys arwyddion priodol ar loriau ac waliau, a sgriniau Perspex ar gyfer derbynfeydd ac adolygiad o leoliadau gwaith, gan ddefnyddio mewnbwn arbenigol gan Ystadau Arbenigol;
- Cynyddu terfynau cymeradwyo ar gyfer uwch staff i ddarparu mwy o hyblygrwydd wrth gaffael offer critigol mewn marchnadoedd cystadleuol iawn sydd hefyd dan bwysau amser;
- Ymestyn oriau agor holl safleoedd PCGC fel y gallai staff weithio'n fwy hyblyg a chadw pellter cymdeithasol;
- Annog staff i beidio â theithio i gyfarfodydd wyneb yn wyneb drwy symud pob cyfarfod ymlaen i Skype (a Teams yn ddiweddarach);
- Sefydlu'r Pwyllgor Llywodraethu Cyllid i ddarparu proses gymeradwyo gyflym a chynhwysfawr ar gyfer ceisiadau caffael brys (ac yn enwedig PPE);
- Cyflogi nifer sylweddol o staff ychwanegol yn y Gadwyn Gyflenwi a'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd er mwyn ymdopi â'r galw cynyddol am PPE a'r angen i ddarparu offer i Gontractwyr Gofal Sylfaenol ac mewn lleoliadau Gofal Cymdeithasol;
- Goruchwylio'r broses o drosglwyddo staff dan gontract asiantaeth i gontractau banc i gynnal capasiti hyblyg ond gyda gwell gwerth am arian; a
- Chyflwyno asesiadau risg iechyd personol ar gyfer yr holl staff.

Mae dogfennau wedi'u cyflwyno a'u gwella er mwyn sicrhau bod staff yn gallu gweithio'n ddiogel ac yn gynhyrchiol, boed yn gweithio o bell gartref neu'n parhau i weithio yn lleoliadau PCGC a lleoliadau eraill GIG Cymru.

Er mwyn diogelu a chynnal lles staff ymhellach, mae nifer o fesurau wedi'u rhoi ar waith. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddi 23 o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar draws PCGC sy'n darparu pwynt cyswllt ar gyfer gweithwyr sy'n profi problemau iechyd meddwl neu drallod emosiynol. Yn ogystal, mae Grŵp Cymorth Iechyd Meddwl PCGC yn grŵp ar-lein rhithiol sy'n agored i bob cydweithiwr sydd ag amgylchedd cyfeillgar, di-bwysau, ac mae'n darparu cymuned gefnogol lle gall unigolion eraill sy'n wynebu anawsterau tebyg ddod at ei gilydd i ddod o hyd i gymorth, adnoddau ac offer hunangymorth. Yn ystod y flwyddyn llofnododd Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) addewid cyflogwr gydag Amser i Newid Cymru; yr ymgyrch genedlaethol gyntaf i roi diwedd ar y stigma a'r gwahaniaethu a wynebir gan bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, a ddarperir gan ddwy o brif elusennau iechyd meddwl Cymru, sef Hafal a Mind Cymru.

Adolygwyd y trefniadau parhad busnes a gychwynnwyd i ymateb i COVID gan Archwilio Mewnol yn nhrydydd chwarter 2020/21. Adolygiad ymgynghorol oedd hwn nad oedd felly'n cynnwys unrhyw farn archwilio ffurfiol. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar sut yr oedd cyfarwyddiaethau wedi ymgysylltu a chydymffurfio â'r dull corfforaethol o ymdrin â pharhad busnes a chanfu fod:

"*PCGC wedi gallu addasu ac adeiladu ar y trefniadau parhad busnes corfforaethol ac adrannol presennol i ddatblygu ei ymateb i bandemig COVID-19. Cynhyrchodd hyn nifer o ganlyniadau cadarnhaol. Gwnaed cynnydd da yn gyffredinol o ran parodrwydd ar gyfer y dyfodol a gwydnwch. Mae'r rheolwyr yn cydnabod bod rhai heriau allweddol yn parhau ac maent yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r rhain.*"

Er gwaethaf COVID-19, mae PCGC yn rhagweithiol wrth adolygu gallu'r sefydliad i barhau i ddarparu gwasanaethau neu gynnyrch ar lefel dderbyniol a ddiffiniwyd ymlaen llaw ar ôl digwyddiad aflonyddol. Mae PCGC yn cydnabod ei chyfraniad at y gwaith o gefnogi GIG Cymru, fel bod modd iddo allu cynllunio ar gyfer ystod eang o ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar iechyd neu ofal cleifion ac ymateb iddynt. Mae hyn yn unol â'r gofyniad i gyrff y GIG gael eu hystyried yn ymatebwyr Categori 1, sef cyrff sydd ar flaen y gad wrth ymateb i'r rhan fwyaf o argyfyngau o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Fel sefydliad a letyir gan yr Ymddiriedolaeth, mae'n rhaid i PCGC dalu sylw i'w Pholisi Rheoli Parhad Busnes a sicrhau bod gan PCGC bolisïau effeithiol ar waith i ddelio â'r canlynol:

- Pobl - colli staff oherwydd salwch neu bandemig;
- Safleoedd - staff yn cael eu hatal rhwng mynd i mewn i'w gweithleoedd arferol
- Problemau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg a phroblemau cyfathrebu / TGCh a
- Problemau gyda chyflenwyr mewnol ac allanol

Mae PCGC wedi ymrwymo i sicrhau ei bod yn dilyn yr holl ofynion cyfreithiol a rheoliadol a bod ganddi brosesau ar waith i adnabod, asesu a gweithredu gofynion deddfwriaethol a rheoliadol sy'n ymwneud â pharhad gweithrediadau ac â buddiannau rhanddeiliaid allweddol.

Mae PCGC yn parhau i weithio tuag at weithredu'r fframwaith Seiberddiogelwch er mwyn diwallu anghenion penodol y gwasanaeth. Mae hwn yn gynllun parhaus sy'n mynd i'r afael â meysydd Adnabod, Diogelu, Datgelu, Ymateb ac Adfer. Mae PCGC eisoes wedi dechrau nifer o lifoedd gwaith, gan gynnwys Llifoedd Gwybodaeth a Llywodraethu, Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant, Caffael Gallu Proffesiynol i Ymateb i Ddigwyddiadau, Technoleg Amddiffynnol trwy Brosiect Caffael SIEM a gweithdai Cynllunio Parhad Busnes ledled y sefydliad. Mae PCGC hefyd wedi rhoi seilwaith rithwir gadarn newydd ar waith yn ddiweddar yn seiliedig ar egwyddorion y fframwaith, er mwyn darparu amgylchedd diogel ar gyfer systemau busnes PCGC.

6.8 Cod Llywodraethiant Corfforaethol y DU

Mae PCGC yn gweithredu o fewn cwmpas trefniadau llywodraethu yr Ymddiriedolaeth. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth asesiad o'r prif egwyddorion hynny yng Nghod Llywodraethiant Corfforaethol y DU sy'n

berthnasol i sefydliad GIG yn y sector cyhoeddus. Gwnaed yr asesiad hwn ar sail asesiad arall gan y Bwrdd o thema "Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd" y Safonau Iechyd a Gofal. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ffyddiog ei bod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod, ei bod yn dilyn ysbryd y Cod yn effeithiol a'i bod yn cynnal ei busnes mewn modd agored yn unol ag ef. Mae'r Bwrdd yn cydnabod nad yw pob rhan o'r Cod sy'n ymwneud ag adrodd wedi cael sylw yn y Datganiad Llywodraethiant hwn, ond rhoddir sylw mwy manwl iddynt yn Adroddiad Blynyddol ehangach yr Ymddiriedolaeth. Mae PCGC hefyd wedi cwblhau hunanasesiad thema "Llywodraethiant, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd" y Safonau Iechyd a Gofal, ac wedi cael sgôr aeddfedrwydd cadarnhaol o 4.

6.9 Cynllun Pensiwn y GIG

Fel cyflogwr a letyir gan yr Ymddiriedolaeth ac fel sefydliad sy'n darparu gwasanaeth cyflogres i GIG Cymru, mae mesurau rheoli cadarn ar waith i sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â phob un o'r rhwymedigaethau yng Nghynllun Pensiwn y GIG ar gyfer staff sydd â hawl i fod yn aelod ohono. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau cyflog, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i mewn i'r Cynllun oll yn digwydd yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion aelodau yn cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r amserlenni y manylir arnynt yn y Rheoliadau.

7. ADOLYGIAD CYFFREDINOL Y RHEOLWR GYFARWYDDWR O EFFEITHIOLRWYDD

Fel y Swyddog Atebol, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae gwaith yr archwilwyr mewnol a Chyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth yn PCGC, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith o reolaeth fewnol, ynghyd â sylwadau gan archwilwyr allanol yn eu llythyr ac mewn adroddiadau eraill, oll yn sail i sut rwyf yn mynd ati i adolygu'r system rheolaeth fewnol.

Fel y Swyddog Atebol mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol dros reoli risg ac rwyf yn adrodd i Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau ynghylch effeithiolrwydd rheoli risg ledled y sefydliad. Mae fy nghyngor i Bwyllgor y Bartneriaeth yn cael ei lywio gan adroddiadau ar reolaethau mewnol gan bob un o'i bwyllgorau, ac yn enwedig gan y Pwyllgor Archwilio.

Mae pob un o'r Pwyllgorau wedi ystyried nifer o adroddiadau yn ymwneud â'u meysydd busnes yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae hyn wedi cynnwys amrywiaeth gynhwysfawr o adroddiadau archwilio mewnol ac allanol ac adroddiadau ynghylch safonau proffesiynol o gyrff rheoleiddio eraill. Mae'r Pwyllgorau hefyd wedi ystyried meysydd ar gyfer datblygiadau strategol lleol a chenedlaethol ac wedi cynghori ar y meysydd hyn, ynghyd ag ystyried ehangu'r gwasanaethau y mae PCGC yn eu darparu. Mae pob Pwyllgor yn ysgrifennu adroddiad blynyddol am ei fusnes ac am y meysydd y mae wedi mynd i'r afael â nhw dros y flwyddyn ddiwethaf, a chaiff y rhain eu hadrodd i'r Ymddiriedolaeth a'r Byrddau Iechyd.

Barn Archwilio Mewnol

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, trwy'r Pwyllgor Archwilio, yn rhoi sicrwydd imi ac i Bwyllgor y Bartneriaeth ar y system rheolaeth fewnol yn gyson. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio sydd wedi ei darparu gan y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd yn PCGC yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus.

Daethpwyd i gytundeb ynghylch cwmpas y gwaith hwn â'r Pwyllgor Archwilio, ac mae'r gwaith yn canolbwyntio ar feysydd risg a blaenoriaethau gwella lleol. Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn deillio o'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg, ac mae'n cyfrannu at y darlun ynghylch sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth iddo adolygu effeithiolrwydd a chefnogi'n hymdrech i wella'n barhaus.

Effeithiwyd ar y rhaglen gan yr angen i ymateb i bandemig COVID-19 gyda rhai archwiliadau wedi'u gohirio, eu canslo neu eu cwtogi wrth i'r sefydliad ymateb i'r pandemig. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y bu digon o sylw i archwiliadau mewnol yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn rhoi Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth lunio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn.

Barn Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/2021 oedd y gall Pwyllgor y Bartneriaeth fod yn **Weddol Sicr** bod trefniadau i ddiogelu llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny a fu dan sylw, wedi cael eu dylunio'n briodol a'u gweithredu'n effeithiol:

SGÔR	DANGOSYDD	DIFFINIAD
Gweddol Sicr	 - + Melyn	Gall y Pwyllgor fod yn **weddol sicr** fod y trefniadau i ddiogelu llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny a fu dan sylw, wedi eu dylunio'n briodol a'u gweithredu'n effeithiol: Mae angen tynnu sylw rheolwyr at rai materion o ran dylunio rheolaeth neu gydymffurfio, gydag **effaith isel i gymedrol ar amlygiad risg gweddilliol,** hyd nes y cânt eu datrys.

Wrth ddod i'r casgliad cyffredinol hwn mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi nodi bod y meysydd sicrwydd sy'n berthnasol i PCGC oll yn rhoi sicrwydd gweddol yn dilyn asesiad. Yn ystod y flwyddyn, ni chyhoeddwyd sgôr o sicrwydd cyfyngedig neu ddim sicrwydd i unrhyw adroddiadau archwilio mewnol.

Rheolaeth Ariannol

Sefydlwyd PCGC gan Lywodraeth Cymru i ddarparu ystod o wasanaethau cymorth i GIG Cymru. Fel y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Swyddog Atebol, mae

gennyf gyfrifoldeb cyffredinol dros reolaeth ariannol PCGC ac rwy'n adrodd i Gadeirydd Pwyllgor y Bartneriaeth.

Crynodeb o Reolaeth Ariannol yn PCGC

Mae pedair prif elfen i Reolaeth Ariannol yn PCGC, sef:

- **Trefniadau Llywodraethu** – Fel sefydliad a letyir, mae PCGC yn gweithredu o dan Fframwaith Llywodraethu yr Ymddiriedolaeth. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys y Rheolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio gweithredoedd a busnes. Mae'r gofynion statudol wedi eu troi'n weithrediadau o ddydd i ddydd ac ynghyd â'r Cynllun Neilltuo a Dirprwyo Grymoedd a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maent yn ffurfio'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer ymddygiad busnes yr Ymddiriedolaeth. Cefnogir y trefniadau hyn gan drefniadau gweithredu ariannol manwl sy'n cwmpasu yr Ymddiriedolaeth yn ei chyfanrwydd yn ogystal â threfniadau gweithredu lleol sydd ond yn berthnasol i PCGC. Yn ystod yr argyfwng COVID-19 presennol, mae'r trefniadau llywodraethu wedi'u gwella trwy sefydlu Pwyllgor Llywodraethu Cyllid. Mae'n cwrdd yn ôl yr angen i ystyried a chymeradwyo ymholiadau ar raddfa fawr a rhai brys. Mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys uwch staff cyllid o PCGC, Cyfarwyddwr Cyllid Felindre ac aelod annibynnol o'r Bwrdd, cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Atal Twyll, Cyfrifon Taladwy a Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg. Cadeirir y Pwyllgor gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, ac mae cydweithwyr Caffael yn mynychu'r Pwyllgor i roi cefndir a chyd-destun i geisiadau penodol.

- **Cyllidebau ac Amcanion y Cynllun** – Mae amcanion sydd wedi eu cymeradwyo a chyllidebau blynyddol yn rhoi eglurder o ran swyddogaethau gweithredol. Rydym yn mesur ein perfformiad yn erbyn y rhain yn ystod y flwyddyn.

- **Cytundebau Lefel Gwasanaeth** – Mae gan PCGC Gytundebau Lefel Gwasanaeth â phob sefydliad cwsmer ac â rhai cyflenwyr pwysig. Mae hyn yn sicrhau bod disgwyliadau o ran darparu gwasanaethau a rhwymedigaethau ar y ddwy ochr yn eglur a bod dealltwriaeth o'r dangosyddion perfformiad allweddol. Mae adolygiad blynyddol o'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn ystyried datblygiadau gwasanaeth.

- **Adrodd** – Mae gan PCGC ystod eang o adroddiadau ariannol ac adroddiadau perfformiad yn eu lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu monitro effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaethau a rheolaethau cysylltiedig a chymryd camau i unioni sefyllfaoedd yn ôl y gofyn.

Trwy'r strwythur hwn mae PCGC wedi cynnal rheolaeth ariannol effeithiol sydd wedi'i hadolygu a'i derbyn fel sy'n briodol gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

CASGLIAD

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn dangos bod PCGC wedi parhau i wella ac aeddfedu fel sefydliad yn ystod 2020/21, a'i fod yn parhau i ddatblygu ac ymgorffori llywodraethu da a rheolaethau priodol ledled y sefydliad. Mae PCGC wedi derbyn adborth cadarnhaol oddi wrth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar y fframwaith sicrwydd ac, oherwydd hyn, ac oherwydd ffynonellau eraill o sicrwydd, rwyf wedi dod i'r casgliad bod gan y sefydliad system rheolaeth gadarn. Fodd bynnag, roedd tri achos penodol lle nad yw rheolaethau wedi gweithredu yn ôl y bwriad. Y rhain oedd:

- Gordaliad o £900k i gyn-gyflogai i Fwrdd Iechyd fel rhan o setliad y cytunwyd arno. Er bod y gordaliad wedi'i adennill yn llawn, gofynnwyd i Archwilio Mewnol gynnal adolygiad o'r amgylchiadau y tu ôl i'r camgymeriad hwn ar unwaith. Canfuwyd nad oedd gwiriadau cywirdeb mewnbynnu'n cael eu cwblhau ar hyn o bryd oherwydd gweithio o bell ac absenoldeb sypiau ffisegol o anfonebau i'w gwirio. Mae hyn wedi'i gywiro ar unwaith ac mae gwiriadau ychwanegol wedi'u rhoi ar waith ar gyfer yr holl daliadau > £100k. Adroddwyd yn llawn ar y mater i'r Pwyllgor Archwilio.
- Yn ddiweddar, mae Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad o gaffael a chyflenwi PPE yn ystod y pandemig. Mae'r adroddiad yn gadarnhaol iawn ar y cyfan ond mae'n cynnwys y canfyddiad nad oedd y "Cydwasanaethau'n bodloni gofynion cyfreithiol o dan reolau caffael brys i gyhoeddi manylion pob contract o fewn 30 diwrnod. Canfu'r Uchel Lys fod Llywodraeth y DU wedi gweithredu'n anghyfreithlon drwy beidio â chyhoeddi manylion ei chontractau ar gyfer PPE yn yr un modd." Mae'r mater hwn bellach wedi cael sylw.
- Yn ystod mis Mawrth 2021, nodwyd nifer o achosion o dwyll a cheisio twyll yn ymwneud â newid manylion cyfrif banc. Roedd y rhain yn dwyll soffistigedig a oedd yn cynnwys cyfrifon e-bost dilys cyflenwyr yn cael eu hacio. Defnyddiwyd y rhain wedyn i ofyn am newidiadau i fanylion cyfrif banc. Talwyd cyfanswm o tua £100k o ganlyniad i bedwar achos ar wahân o dwyll, er i £60k o'r arian hwn gael ei adennill ar unwaith. Mae rheolaethau wedi'u cryfhau ymhellach gyda ffurflenni mandad banc bellach yn cael eu hanfon drwy'r post, ac mae'n ymddangos bod hyn wedi rhwystro unrhyw ymdrechion pellach i dwyllo PCGC drwy'r dulliau hyn. Mae mynediad i feddalwedd hefyd wedi'i brynu sy'n galluogi i fanylion cyfrif newydd gael eu paru ag enw'r cyflenwr.

Fel y nodir trwy gydol y datganiad hwn, mae'r angen i gynllunio ac ymateb i bandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad, y GIG yn ehangach ac ar gymdeithas yn ei chyfanrwydd. Mae wedi mynnu ymateb deinamig sydd wedi cynnig nifer o gyfleoedd yn ogystal â'r risgiau. Bydd yr angen i ymateb ac adfer o'r pandemig gyda'r sefydliad a'r gymdeithas ehangach wrth i ni ddechrau yn 2021/22, ac mae'n annhebygol, ac yn wir yn annymunol mynd yn ôl i ailadrodd yn llawn y ffyrdd o weithio cyn y pandemig. I'r perwyl hwn, mae Grŵp Addasu a Newid ar gyfer y Dyfodol, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg, yn gyfrifol am osod map ffordd i adael y pandemig sy'n ymgorffori'r gwersi a

ddysgwyd ohono. Cefnogir y Grŵp Addasu a Newid ar gyfer y Dyfodol gan Grŵp y Rheolwyr Adeiladau a'i dasg oedd sicrhau diogelwch pob safle lle mae staff PCGC yn cael eu cyflogi, yn ystod y pandemig ac wrth i ni, gobeithio, adael y pandemig. Wrth i'r gwaith hwn fynd yn ei flaen, byddaf yn sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu'n ystyried ac yn ymateb i'r angen hwn.

Edrych i'r dyfodol – ar gyfer 2021/22:

Rwyf yn cadarnhau fy mod yn ymwybodol o fy nghyfrifoldeb ac atebolrwydd parhaus i chi, i sicrhau bod cydymffurfiaeth ymhob maes fel yr amlinellir yn y datganiadau uchod ym mlwyddyn ariannol 2021/22.

Llofnodwyd  gan:

Rheolwr Gyfarwyddwr - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Dyddiad: 1 Gorffennaf 2021